



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales



Sgrinio Cyn Geni Cymru
Antenatal Screening Wales

Adroddiad Blynyddol Sgrinio Cyn Geni Cymru 2022-24

Fersiwn 1

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg/This document is available in English

Manylion cyhoeddi

Mae'r adroddiad hwn yn grynodeb manwl o wybodaeth am waith a wnaed gan Sgrinio Cyn Geni Cymru o 1 Ebrill 2022 tan ddiwedd 31 Mawrth 2024.

Teitl: Adroddiad Blynyddol Sgrinio Cyn Geni Cymru 2022-24 (Fersiwn 1)

Dyddiad: Medi 2024

ISBN: 978-1-83766-565-5

Manylion cyswllt

Sarah Fox, Pennaeth Rhaglen, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Llawr 4, 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, CF10 4BZ.

E-bost: antenatal-screening@wales.nhs.uk

Ffôn: 02920 104433

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg heb oedi / We welcome correspondence and phone calls in Welsh. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg yn ddi-oed.

Gwybodaeth am hawlfraint

© 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (DLA) www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/ ar yr amod y caiff hynny ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a'r diwygio yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

This document is also available in English.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Cynnwys

Cynnwys.....	3
Tablau	4
Ffigurau	4
Negeseuon allweddol	6
Crynodeb Gweithredol	7
Cyflwyniad.....	9
Cefndir	9
Darparu rhwydwaith clinigol a reolir	10
Gweithgarwch yn y cyfnod a adroddir	15
Sgrinio Cyn Geni Cymru	15
Gwaith ar draws y rhaglenni	21
Gwaith penodol i raglenni	23
Edrych ymlaen at y flwyddyn sgrinio nesaf	54
Crynodeb	55
Tîm cynhyrchu	56

Tablau

Tabl 1: Camau proses adolygu Sgrinio Cyn Geni Cymru.....	15
Tabl 2 : Data blynyddol Sgrinio a Diagnostig Cymru Gyfan (2022-2023)	41
Tabl 3: Parthau ymddygiad a sgoriau cymedrig	42
Tabl 4 : Argymhellion o'r archwiliad hepatitis B.....	45

Ffigurau

Ffigur 1: Siart sefydliadol Sgrinio Cyn Geni Cymru	13
Ffigur 2: Llwybr ar gyfer Sgrinio Cyn Geni.....	13
Ffigur 3: Crynodeb o'r gweithgarwch yn y flwyddyn a adroddwyd yn unol â'r cynllun gweithredol..	14
Ffigur 4: Diweddariad addysg Polisi, Safonau a Phrotocolau.	15
Ffigur 5: Llawlyfr Bydwagedd	16
Ffigur 6: Adnodd dysgu rhithwir i fydwragedd dan hyfforddiant.....	19
Ffigur 7: Llwybr Sgrinio Cyn Geni	20
Ffigur 8: Cynhadledd Bydwagedd dan Hyfforddiant Prifysgolion Cymru.....	21
Ffigur 9: Delwedd o stondin Sgrinio Cyn Geni Cymru-Cynhadledd RCM	21
Ffigur 10: Plot unigol DQASS ar gyfer sonograffydd	23
Ffigur 11: Plot unigol sonograffydd sy'n dangos gogwydd	24
Ffigur 12 : Graff sy'n dangos statws baner sonograffydd	24
Ffigur 13: Delwedd sy'n dangos coluddyn ecogenig a chyda'r medrydd wedi'i droi i lawr yn dal i fod mor llachar ag asgwrn.....	25
Ffigur 14: Adroddiad cryno sonograffydd.....	25
Ffigur 15: Enghraifft o daflenni gwybodaeth yn dilyn sganiau sgrinio	27
Ffigur 16: Adnodd addysg-sgrinio DNA di-gell y ffetws	30
Ffigur 17: Llwybr ar gyfer canlyniadau anghyson	31
Ffigur 18: Adnodd proffesiynol ar gyfer rheoli DNA di-gell y ffetws	32
Ffigur 19: Llwybrau ar gyfer rheoli alffa thalasaemia a newyddenedigol posibl	34
Ffigur 20: Cymhorthion gweledol ar gyfer cwblhau cardiaid cais yn gywir.....	35
Ffigur 21: Sgrin lun o becyn e-ddysgu clefyd y crymangelloedd a thalasaemia	36
Ffigur 22: Sticer cerdyn cais yn dangos acronymau wedi'u symleiddio .. Error! Bookmark not defined.	
Ffigur 23: Sgrin lun o'r papur cyhoeddedig.....	38
Ffigur 24: Sgrin lun o'r cyflwyniad	40
Ffigur 25: graff sy'n dangos y gostyngiad mewn gwallau cardiaid cais	43
Ffigur 26: Sgrin lun o'r fideo offeryn ymyriad	44
Ffigur 27: Cerdyn cais wedi'i ddiweddarau sy'n dangos pwysigrwydd cwblhau bob adran	44
Ffigur 29: Llwybr ar gyfer gefell sy'n diflannu/wedi diflannu.....	46
Ffigur 30: Sgrin lun o wefan Sgrinio Cyn Geni Cymru sy'n dangos sut y mae'r wybodaeth wedi'i hailfformatio.....	47
Ffigur 31: Clawr blaen y canllaw Heintiau a Brechau yn ystod Beichiogrwydd	47
Ffigur 32: Llwybr ar gyfer rheoli gwyliadwriaeth data sifilis a HIV yn ystod beichiogrwydd yng Nghymru.....	48



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Ffigur 33: Sgrin lun o'r cymorth i'r cof	49
Ffigur 34: Tudalen prawf electronig wedi'i diweddaru	50
Ffigur 35: Diagram sy'n dangos niferoedd y diagnosis o hepatitis B yn ystod beichiogrwydd a phrofion dilynol.....	51
Ffigur 36: Graff yn dangos brechu newyddenedigol a babanod	52
Ffigur 37: Sgrin lun o wefan Sgrinio Cyn Geni Cymru yn dangos gwybodaeth yn ystod beichiogrwydd lle cafwyd canlyniad prawf positif am sifffilis.....	53



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Negeseuon allweddol

Ewch yn brydlon at eich bydwraig er mwyn cael help i wneud y dewisiadau gorau yn eich beichiogrwydd.

- Mae sgrinio cyn geni yn rhoi gwybodaeth bwysig i fenywod am eu hiechyd nhw a'u babi
- Gofynnir i fenywod drefnu apwyntiad gyda bydwraig cyn gynted ag y byddant yn dod i wybod eu bod yn feichiog.
- Bydd menywod yn cael gwybodaeth a fydd yn eu helpu i ddewis a fyddant yn cymryd rhan mewn sgrinio cyn geni.
- Fel rhan o'i gofal cyn geni arferol bydd y fydwraig yn siarad â'r fenyw am y gwahanol brofion y gall eu cael a bydd yn ateb ei chwestiynau.
- Nid yw profion sgrinio cyn geni'n gwbl gywir bob tro ac maent yn gallu methu rhai cyflyrau.
- Efallai y bydd y fenyw feichiog yn cael cynnig rhagor o brofion neu driniaeth ar ôl ei sgrinio cyn geni.

I ddysgu rhagor:

Ewch i: icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/sgrinio-cyn-geni-cymru



Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith a wnaed gan Sgrinio Cyn Geni Cymru rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2024. Mae'r adroddiad cryno hwn yn amlygu cyflawniadau'r tîm ac yn gyfle i fyfyrto. Mae'n dangos yr amrywiaeth eang o waith a wnaed ar gyfer yr wyth rhaglen sgrinio cyn geni ac mae'n dangos cydweithio â chydweithwyr ledled Cymru.

Sefydlwyd Sgrinio Cyn Geni Cymru yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru i sefydlu polisiau, safonau a fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer sgrinio cyn geni a ddarperir gan wasanaethau mamolaeth yng Nghymru. Mae byrddau iechyd yn gyfrifol am ddarparu sgrinio yn unol â'r polisiau, y safonau a'r protocolau fel rhan o ofal cyn geni arferol.

Mae'r adroddiad yn trafod y ffrydiau gwaith a gynhaliwyd gan y Tîm yn unol â Chynllun Gweithredol Sgrinio Cyn Geni Cymru.

Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedi mabwysiadu polisiau, safonau a phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru. Mae hyn yn galluogi menywod yng Nghymru i gael gafael ar wasanaethau sy'n gweithio yn ôl arferion gorau ac mae'n sicrhau gwasanaeth sgrinio cyn geni teg. Yn dilyn yr adolygiad blwyddyn o hyd o'r Polisi, Safonau a Phrotocolau, cyhoeddwyd y fersiwn wedi'i diweddararu ar 14 Awst 2023. Diweddarwyd adnoddau atodol yn unol â'r adolygiad o'r safonau a'r protocolau. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth ysgrifenedig cyn ac ar ôl prawf ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau, Llawlyfr Bydwragedd, gwybodaeth i fenywod lle mae gefell wedi marw (gefell sydd wedi diflannu) a pheccynau e-ddysgu presennol.

Mae'n rhoi manylion y gwaith i bennu cwmplas a datblygu'r gwaith o gyflwyno sgrinio DNA di-gell y ffetws i'r Rhaglen Grŵp Gwaed a Gwrthgyrff ar gyfer y boblogaeth feichiog gymwys. Roedd hwn yn brosiect mawr yn cynnwys gweithio aml-ddisgyblaethol gan gydweithwyr ym mhob bwrdd iechyd yng Nghymru. Mae'r adnoddau a ddatblygwyd neu a ddiwygiwyd ar gyfer y gweithredu yn cynnwys:

- Diwygiadau i Bolisi, Safonau a Phrotocolau
- Paratoi pecyn e-ddysgu ar gyfer Grŵp Gwaed a Gwrthgyrff
- Hyfforddiant rhaeadru ar gyfer cynnig DNA di-gell y ffetws (cffDNA)
- Llwybr ar gyfer y prawf sgrinio a rheoli canlyniadau anghyson
- Diwygiadau i adnoddau gweithwyr iechyd proffesiynol-Llawlyfr Bydwragedd, cwblhau'r cardiau cais am brawf yn gywir
- Diwygiadau i wybodaeth ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau-gwybodaeth cyn prawf, gwybodaeth i fenywod sy'n RhD negatif ac sy'n cael cynnig sgrinio, menywod sy'n cael cynnig profion mewnwthiol (e.e. amniosentesis, profion filws corionig (CVS)).

Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i weithredu profi cynenedigol heb lawdriniaeth (NIPT) fel cyflwyniad gwerthusol tair blynedd. Cyhoeddwyd canfyddiadau'r gwerthusiad o fewn y cyfnod

adrodd hwn. Mae argymhellion o'r cyflwyniad gwerthusol bellach yn cael eu hymgorffori mewn 'busnes fel arfer'.

Datblygwyd nifer o adnoddau e-ddysgu i gynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol, sy'n darparu'r rhaglen sgrinio cyn geni yng Nghymru. Ymhlith yr adnoddau a ddatblygwyd roedd –

- Clefydau Trosglwyddadwy
- Grŵp Gwaed a Gwrthgyrff

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi parhau i fonitro perfformiad y rhaglenni drwy archwilio:

- adrodd Dangosydd Perfformiad ddwywaith y flwyddyn
- monitro perfformiad llwybr sgrinio syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T18) yng Nghymru gyda chymorth Gwasanaeth Cymorth Sicrwydd Ansawdd syndrom Down (DQASS)
- coluddyn ecogenig a ganfyddir yn y sgan anomaledd
- rheoli sifffilis yn ystod beichiogrwydd, ac
- ailarchwilio rheoli hepatitis B yn ystod beichiogrwydd.

Mae gwaith datblygu yn mynd rhagddo i bennu cwmpas cyflwyno mesur cylch yr abdomen yn ystod y sgan anomaledd ar gyfer pob bwrdd iechyd yng Nghymru ac awgrymir gweithredu hyn ym mis Hydref 2024.

Cyflwynwyd a gweithredwyd gwyliadwriaeth achosion o HIV a sifffilis ym mis Ionawr 2024. Bydd casglu data canlyniadau sgrinio ac adrodd arnynt ar gyfer y ddau gyflwr yn ystod beichiogrwydd yn asesu effaith y cyflyrau yng Nghymru. Bydd hyn yn arwain at wneud argymhellion yn lleol ac yn genedlaethol, cryfhau polisi ac ymarfer, a gwella gofal i famau a'u plant yng Nghymru.

Gweithiodd Sgrinio Cyn Geni Cymru mewn partneriaeth gyda byrddau iechyd i weithredu 'Digidol yn Gyntaf' ar gyfer darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am sgrinio cyn geni, gyda phontio ffurfiol ledled Cymru ers mis Medi 2022. Gweithredwyd Digidol yn Gyntaf yn llwyddiannus. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn parhau i wella gwybodaeth ddigidol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr iechyd proffesiynol.

Gan weithio ar draws ffiniau sefydliadol a chydag ymrwymiad a chymorth rhanddeiliaid, darparwyr gwasanaethau gan gynnwys pob bwrdd iechyd yng Nghymru, mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi parhau i sicrhau cysondeb a sefydlogrwydd y rhaglen sgrinio cyn geni yn aml mewn amgylchedd heriol lle ceir llawer o flaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd.



Cyflwyniad

Cefndir

Mae gwasanaethau mamolaeth y byrddau iechyd yng Nghymru yn cynnig profion sgrinio cyn geni i fenywod beichiog fel rhan o'u gofal cyn geni. Mae amryw o wahanol resymau dros gynnig profion sgrinio cyn geni, ac mae'r rhain yn gwneud sgrinio cyn geni yn rhaglen gymhleth sydd â sawl diben gwahanol ac ystyriaethau a goblygiadau moesegol unigryw. Mae cefnogi unigolion i wneud penderfyniadau gwybodus personol am eu dewisiadau sgrinio cyn geni yn bwysig yn ystod beichiogrwydd.

Y diben y cytunwyd arno ar gyfer y rhaglen sgrinio cyn geni yng Nghymru yw:

canfod cyflyrau penodol sy'n bresennol naill ai yn y fam neu yn y babi sy'n debygol o effeithio ar iechyd y naill neu'r llall, lle mae dull effeithiol o ymyrryd neu driniaeth ar gael ar eu cyfer.

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn cael ei gyllido gan Lywodraeth Cymru i gynorthwyo gwelliannau o ran safon y sgrinio cyn geni a gynigir i fenywod. Mae'r model o ddarpariaeth sgrinio yng Nghymru yn unigryw i'r DU. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn gyfrifol am ddatblygu a chefnogi byrddau iechyd i gyflawni pob agwedd ar y rhaglen sgrinio cyn geni, drwy strwythur rhwydwaith clinigol a reolir. Mae hyn yn cynnwys:

- Cynllunio, datblygu polisi,
- Strwythurau llywodraethu,
- Fframweithiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd,
- Addysg.

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi sefydlu polisiâu, safonau a fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer sgrinio cyn geni a ddarperir gan wasanaethau mamolaeth yng Nghymru.

Cymhwysra presennol

Cynnig i bob menyw feichiog sy'n byw yng Nghymru, ym mhob beichiogrwydd:

- sgrinio cyn geni am HIV, hepatitis B a sifffilis
- sgrinio cyn geni am grŵp gwaed, statws RhD a gwrthgyrff
- sgrinio cyn geni ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia
- sgan dyddio beichiogrwydd cynnar a sgan anomaledd y ffetws
- sgrinio cyn geni am syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13)

Amserlen gyfer cynnal profion sgrinio

Yn ddelfrydol, dylid cynnal profion sgrinio yn gynnar yn ystod beichiogrwydd, erbyn tua 12 wythnos o'r beichiogrwydd os bydd y fenyw yn dod i gael gofal cyn geni cyn y cyfnod beichiogrwydd hwn. Gellir cynnal sgrinio am HIV, sifflis, hepatitis B, clefyd y crymangelloedd, thalasaemia, grŵp gwaed a statws RhD, gwrthgyrff a sgan dyddio beichiogrwydd cynnar yn ystod unrhyw gyfnod beichiogrwydd.

Gellir cynnal y prawf sgrinio cyfun ar gyfer y siawns y bydd gan y beichiogrwydd syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau rhwng 11^{+2} wythnos- 14^{+1} wythnos o feichiogrwydd.

Os bydd y fenyw yn cyflwyno yn rhy hwyr i gael sgrinio yn ystod y tri mis cyntaf neu os nad oes modd mesur tryloywder y gwegil (NT) ar gefn gwddf y ffetws, y prawf sgrinio sy'n cael ei argymhell yn ystod yr ail gyfnod o dri mis yw'r prawf pedwarplyg. Mae'r prawf hwn yn defnyddio mesuriad uwchsain i asesu'r cyfnod beichiogrwydd gyda'r canlyniadau o farcwr biocemegol i roi canlyniad siawns ar gyfer syndrom Down i fenyw dim ond mewn beichiogrwydd sengl rhwng 15^{+0} ac 18^{+0} wythnos o feichiogrwydd.

Diben y sgan anomaledd y ffetws yw sgrinio ar gyfer anomaleddau arwyddocaol yng nghorff y ffetws sy'n debygol o gael effaith niweidiol ar iechyd y fam neu'r babi a lle mae ymyriad effeithiol ar gael ar ei gyfer a bod cyfiawnhad dros ei ddefnyddio yn ystod 18^{+0} wythnos i 20^{+6} wythnos o'r beichiogrwydd.

Os yw'r fenyw yn mynd i gael gofal cyn geni yn ddiweddarach yn ystod beichiogrwydd, rhaid cynnig iddi sgan uwchsain sy'n briodol i'w chyfnod beichiogrwydd a dybir. Mae'n bosibl defnyddio modiwl adrodd ar sgan anomaledd rheolaidd RadIS2 neu ddewis arall y cytunwyd arno ar gyfer y sganau hyn gyda'r ddealltwriaeth ei bod yn bosibl na fydd yr amcangyfrif o fesuriadau arferol yn gywir yn hwyrach yn y beichiogrwydd.

Darparu rhwydwaith clinigol a reolir

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn rhan o Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru, sydd â phrofiad helaeth o reoli a darparu rhaglenni sgrinio sy'n seiliedig ar y boblogaeth. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi darparu Rhwydwaith Rheolaeth Glinigol Cymru gyfan ar gyfer sgrinio cyn geni ers 2003. Mae'r Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol a'r grwpiau cynghori penodol i raglen yn darparu trefniadau llywodraethu ar gyfer y rhwydwaith. Mae'r bwrdd iechyd sy'n darparu gofal yn cynnal darpariaeth sgrinio cyn geni. Nid yw Sgrinio Cyn Geni Cymru yn darparu unrhyw wasanaethau sgrinio cyn geni, nac yn eu rheoli'n uniongyrchol.

Yn ystod 2022-24, newidiodd cyfansoddiad tîm Sgrinio Cyn Geni Cymru mewn ymateb i ddatblygiadau'r gweithlu a newidiadau o ran adolygu gwasanaethau. Mae tîm Sgrinio Cyn Geni Cymru yn cynnwys:

- Pennaeth y Rhaglen (0.8wte)

- 3 Chydlynnydd Rhaglen – 2 fydwraig (1.6wte) ac 1 radiograffydd/sonograffydd (0.8wte)
- Rheolwr Cymorth i'r Rhaglen (1.0wte) ar gyfer Sgrinio Cyn Geni Cymru, Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru (NBSW) a Sgrinio Clyw Babanod Cymru (NBHSW)
- Rheolwr Cymorth Rhaglen Cynorthwyol (1.0wte) ar gyfer Sgrinio Cyn Geni Cymru, NBSW ac NBHSW
- Cymorth Gweinyddol (1.0wte) ar gyfer Sgrinio Cyn Geni Cymru

Cynghorwyr Proffesiynol

Mae tîm Sgrinio Cyn Geni Cymru a'r Grŵp Llywodraethu Clinigol yn cael eu cynorthwyo gan Gynghorwyr Proffesiynol sy'n cael eu cyflogi drwy gcontractau anrhydeddus. Mae'r contractau anrhydeddus hyn am gyfnod o 3 blynedd. Wrth i'r rhaglenni sgrinio cyn geni gael eu sefydlu, mae angen adolygu'r cyngor proffesiynol, y cyngor sicrhau ansawdd, y cymorth a'r gofynion llywodraethu er mwyn sicrhau bod strwythur a gwneuthuriad y cynghorydd proffesiynol yn gweddu orau i ofynion Sgrinio Cyn Geni Cymru a'r rhaglenni sgrinio cyn geni.

Mae Cynghorwyr Proffesiynol presennol Sgrinio Cyn Geni Cymru fel a ganlyn –

- Obstetregydd ymgynghorol x2
- Haematolegydd ymgynghorol
- Genetegydd ymgynghorol
- Firolegydd ymgynghorol
- Biocemegydd (diddordeb arbennig mewn sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau)
- Sonograffydd ymgynghorol (diddordeb arbennig mewn uwchsain/sgrinio cyn geni).

Arweinydd llywodraethu sgrinio mamau a phlant y bwrdd iechyd

Mae gan bob bwrdd iechyd arweinydd llywodraethu wedi'i enwi ym maes Sgrinio Mamau a Phlant sy'n rheoli llywodraethu strategol y rhaglenni sgrinio cyn geni a babanod. Mae'r swyddi hyn yn cael eu cyllido gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (0.2wte).

Mae'r rolau hyn yn rheoli'r llywodraethu strategol ar gyfer y rhaglenni sgrinio i famau a phlant ym mhob bwrdd iechyd. Mae'r arweinwyr llywodraethu yn cwrdd â Sgrinio Cyn Geni Cymru bob chwarter i drafod materion llywodraethu perfformiad rhaglenni a rhoi cymorth i'w gilydd o fewn y rôl hon. Mae

arweinydd llywodraethu bwrdd iechyd yn cynrychioli'r grŵp yng nghyfarfodydd Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol Sgrinio Cyn Geni Cymru, grwpiau cynghori a chyfarfodydd ffrydiau gwaith.

Grwpiau cynghori Sgrinio Cyn Geni Cymru

Mae grwpiau cynghori Sgrinio Cyn Geni Cymru ar gyfer y rhaglenni sgrinio cyn geni yn rhoi ffocws clir i bob un o'r rhaglenni, lleihau'r ddibyniaeth ar wybodaeth a sgiliau unigol a hyrwyddo fframwaith llywodraethu clinigol cadarn i gynorthwyo'r llwybrau sgrinio. Mae'r grwpiau cynghori ar gyfer y rhaglenni sgrinio cyn geni fel a ganlyn –

- Grŵp Cynghori Sgrinio Clefyddau Trosglwyddadwy
- Grŵp Cynghori Sgrinio Clefyd y Crymangelloedd a Thalasaemia/Grŵp Gwaed a Gwrthgyrff
- Grŵp Cynghori Sgrinio anomaledd y Ffetws/syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau.


Cylch gwaith y grwpiau yw darparu cyngor ac ymgynghori proffesiynol i Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol Sgrinio Cyn Geni Cymru. Mae'r grwpiau yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn. Mae'r defnydd o gyfarfodydd a thrafodaethau rhithwir yn parhau i hyrwyddo ymgysylltu. Mae gan y grwpiau cynghori gylch gorchwyl clir ac aelodaeth ddiffiniedig.

Gweithio mewn partneriaeth â byrddau iechyd


Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn cwrdd yn rheolaidd, ac yn gweithio'n agos gydag arweinwyr llywodraethu byrddau iechyd, cydlynwyr sgrinio cyn geni, arweinwyr uwchsain obstreteg, arweinwyr uwchsain cardiaidd y ffetws ac arweinwyr uwchsain tryloywder y gwegil (NT) i roi cyngor proffesiynol i'r Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol Cymru Gyfan am holl agweddau'r rhaglenni sgrinio cyn geni yng Nghymru.

Grŵp Cynghori Cyfarwyddwyr a Phennaeth Bydwreigiaeth

Diben y grŵp hwn yw trafod a datblygu gwaith strategol a gweithredol yn eu gwasanaethau mamolaeth ac i ddarparu cyngor proffesiynol arbenigol i Lywodraeth Cymru. Mae Pennaeth Rhaglen Sgrinio Cyn Geni Cymru yn mynychu'r cyfarfod hwn ac yn darparu papur cryno i roi gwybodaeth am ffrydiau gwaith a darparu trafodaethau am weithio mewn partneriaeth rhwng Sgrinio Cyn Geni Cymru a byrddau iechyd. Mae cynrychiolydd o'r grŵp hwn hefyd yn aelod o Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol Sgrinio Cyn Geni Cymru.



Ffigur 1: Siart sefydliadol Sgrinio Cyn Geni Cymru



Ffigur 2: Llwybr ar gyfer Sgrinio Cyn Geni



Datblygiad

E-ddysgu - Clefyd y Crymangelloedd a Thalasaemia, HIV, sifflis a hepatitis B a

Grŵp Gwaed a Gwrthgyrff

Y diweddaraif i Fydwragedd dan Hyfforddiant

Rheoli mesuriadau uwchsain

Cydweithredu-Cyflwyno mewn Cynadleddau Cenedlaethol, gweithio gydag RISP, DMC

Gweithredu sgrinio DNA di-gell y ffetws yn ystod beichiogrwydd ar gyfer menywod beichiog
RHD negatif

Acronymau labordy ar gyfer profion crymangelloedd a thalasaemia, gwneud cais am brawf
electronig ar gyfer HIV, sifflis a hepatitis B ac ychwanegu gwybodaeth glinigol ar gyfer
adrodd canlyniadau'n fwy amserol

Offeryn ymyriad cerdyn cais ar gyfer syndrom cyfun/sgrinio pedwarplyg a phroffion
anfewnwithiol cynnedigol

Datblygu'r wefan ac ailfformatio adnoddau-Llawlyfr Bydwragedd, gwybodaeth ar ôl prawf i
fenywod sy'n cael cynnig profion pellach lle gallant wynebu siawns uwch o gyflwr
cromosomaidd neu genetig

Gwyliadwriaeth data HIV a sifflis yng Nghymru a chyflwyno cymhorthion i'r cof ar gyfer
rheoli canlyniadau sgrinio positif

Cynnig sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau lle bu
beichiogrwydd lluosog gyda marwolaeth ffetws

Rheoli Perfformiad

Adrodd ar Ddangosyddion Perfformiad Ddwywaith y
Flwyddyn

Sicrwydd ansawdd i sonograffwyr a diweddariadau
addysgol

Gweithgarwch Scriinio Cyn Geni Cymru 2022-2024

Adolygu

Polisi, Safonau a Phrotocolau ac adnoddau ategol gan
gynnwys gwybodaeth i fenywod, Gwerthuso Digidol
yn Gyntaf, Rôl Arweinwyr Llywodraethu, Llwybr
Rheoli Newyddenedigol ar gyfer Clefyd y
Crymangelloedd a Thalasaemia

Rheoli canlyniadau sgrinio ar gyfer alffa thalasaemia
posibl

Cwblhau cerdyn cais - clefyd y crymangelloedd a
thalasaemia-y fam a thad biolegol y babi a sgrinio
cyfun a phedwarplyg

Prawf electronig yn gofyn am glefyd y
crymangelloedd a thalasaemia a syndrom Down,
syndrom Edwards a syndrom Patau

Canllawiau Heintiau a Brechau yn ystod
Beichiogrwydd i Weithwyr Iechyd Proffesiynol

Archwilio

Sifflis yn ystod beichiogrwydd, coluddyn
ecogenig,

Cyffredinrwydd clefyd y crymangelloedd a
thalasaemia yng Nghymru,

Profion Cyn Geni Anfewnwithiol-Rhannu
canfyddiadau'r cyflwyniad gwerthusol,

Rhesymau dros gwblhau cardiau cais yn
anghyflawn, ailarchwilio rheoli hepatitis B yn
ystod beichiogrwydd

Ffigur 3: Crynodeb o'r gweithgarwch yn y flwyddyn a adroddwyd yn unol â'r cynllun gweithredol

Gweithgarwch yn y cyfnod a adroddir

Sgrinio Cyn Geni Cymru

Polisi, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru

Mae pob bwrdd iechyd yng Nghymru wedimabwysiadu polisiâu, safonau a phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru. Mae hyn yn galluogi menywod yng Nghymru i gael gafael ar wasanaethau sy'n gweithio yn ôl arferion gorau ac mae'n sicrhau gwasanaeth sgrinio cyn geni teg. Yn dilyn yr adolygiad o'r Polisi, Safonau a Phrotocolau, cyhoeddwyd y fersiwn wedi'i diweddararu ar 14 Awst 2023. Dangosir camau'r broses adolygu yn Nhabl 1.

Tabl 1: Camau proses adolygu Sgrinio Cyn Geni Cymru

Proses ar gyfer Adolygiad Polisi, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru		
Ansawdd a Llywodraethu Clinigol	Mai 2022	Adolygiad proses a chytundeb gan y grŵp
Adolygiad mewnol o'r ddogfen	Mehefin-Medi 2022	Adolygiad Cydlynwyr Rhaglen a Phennaeth Rhaglen – 8 Rhaglen ac Adrannau Rheoli/Llywodraeth
Grŵp Cyngori Clefyd y Crymangelloedd a Thalasaemia/Grŵp Gwaed a Gwrthgyrff	Hydref 2022	Clefyd y Crymangelloedd a Thalasaemia Adolygiad Grŵp Gwaed a Gwrthgyrff
Grŵp Cyngori Syndrom Down, Syndrom Edwards/Syndrom Patau/Anomaledd y Ffetws	Tachwedd 2022	Penodau Syndrom Down, syndrom Edwards, syndrom Patau ac uwchsaïn
Grŵp Cyngori Clefydau Trosglwyddadwy	Hydref 2022	Penodau HIV, Hepatitis B a Sifflis
Grŵp Sonograffwyr Arweiniol	Hydref 2022	Pennod uwchsaïn a rolau Arweinwyr Uwchsaïn
Grŵp Cydlynwyr Sgrinio ac Arweinwyr Llywodraethu Mamau a Phlant	Ionawr 2023	Adolygu pob pennod
Cymeradwyo'r fersiwn ymgynghori	Ionawr 2023	Adolygu a chymeradwyo grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol
Cyfieithiad Cymraeg	Chwefror 2023	Yn unol â Safonau'r Gymraeg
Ymgynghori Ehangach	Mehefin-Gorffennaf 2023	Dogfen wedi'i lanlwytho ar gyfer grŵp rhanddeiliaid mawr ar gyfer eu hadolygiad
Cadarnhad	Awst	Adolygiad terfynol y Grŵp Ansawdd a Llywodraethu Clinigol

Cyhoeddi 14 Awst 2023

Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru 2023

Cyflwyniad

- Nod – y diweddaraf am newidiadau o fersiwn 2019
- Mae Polisi, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi'u diwygio a byddant yn cael eu hailgyhoeddi yn 2023
- Mae'r holl safonau yn y ddogfen wedi'u hysgrifennu mewn blychau wedi'u cysgodi ac mae ganddynt darged a ddefnyddir i fonitro ansawdd y rhaglen sgrinio gan ddefnyddio dangosyddion archwilio a pherfformiad




Cafodd cyflwyniad PowerPoint o'r newidiadau yn y safonau a'r protocolau wedi'u diweddarau ei lunio a'i anfon at gydweithwyr byrddau iechyd i'w raeadru yn y byrddau iechyd.

Ffigur 4: Diweddariad addysg Polisi, Safonau a Phrotocolau.

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Llawlyfr Bydwagedd

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddatblygu i ddarparu cyfeiriad ac arweiniad i fydwagedd sy'n darparu sgrinio cyn geni ar gyfer Rhaglen Sgrinio Cyn Geni Cymru. Mae'n cynnwys llwybrau a gwybodaeth glinigol ar gyfer pob un o'r rhaglenni. Er hwylustod, mae'r llawlyfr wedi'i rannu yn adrannau penodol i gyflyrau a'i gyhoeddi mewn HTML a PDF ar safle mewnwyd proffesiynol Sgrinio Cyn Geni Cymru.



Ffigur 5: Llawlyfr Bydwagedd

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Gwerthuso digidol yn gyntaf ar gyfer darparu gwybodaeth cyn prawf sgrinio cyn geni a sgrinio babanod

Gweithiodd y rhaglenni mamau a phlant-Sgrinio Cyn Geni Cymru, Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru a Sgrinio Clyw Babanod Cymru gyda byrddau iechyd i weithredu 'Digidol yn Gyntaf' ar gyfer darparu gwybodaeth i'r cyhoedd am sgrinio cyn geni a babanod, gyda phontio ffurfiol ledled Cymru ym mis Medi 2022.

Roedd gweithredu digidol yn gyntaf ar gyfer darparu gwybodaeth cyn prawf sgrinio cyn geni a sgrinio babanod yn llwyddiant. Sicrhodd y dull a pharodwydd staff y bwrdd iechyd a chymorth gan y timau sgrinio cenedlaethol mai eu hadnoddau digidol oedd y brif ffynhonnell wybodaeth cyn prawf ledled Cymru erbyn diwedd mis Medi 2022.

Argymhellion o'r gwerthusiad

- 1) Dylai fformat animeiddiadau a fideos gael ei ddylunio er mwyn sicrhau bod yr holl wylwyr yn derbyn negeseuon allweddol. I gydnabod patrymau gwyllo, dylid ystyried cynnwys crynodeb o'r negeseuon allweddol ar ddechrau pob fideo a hyd delfrydol y fideo.
- 2) Dylai rhaglenni mamau a phlant ddiwygio dosbarthu taflenni copi caled i 2 y flwyddyn, gyda'r potensial i leihau hyn ymhellach os bydd y galw am adnoddau papur yn gostwng.
- 3) Yn sgil tystiolaeth sy'n dangos y nifer cymharol isel o fynediad cyfranogwyr at wybodaeth cyn prawf, dylid ystyried a yw'r cylch adolygu 2 flynedd presennol ar gyfer adnoddau cyfranogwyr yn briodol neu a fyddai proses adolygu llai aml sy'n ymgorffori diweddariadau ad hoc yn well.
- 4) Dylid ystyried casglu data llinell sylfaen ar gyfer pob rhaglen sgrinio ynghylch a yw adnoddau cyn prawf yn cael eu darllen/cyrchu mewn gwirionedd, i ategu argymhelliad 5.

- 5) Ar gyfer rhaglenni mamau a phlant, dylid ystyried sut y gall Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru gynorthwyo/sicrhau sgysiau o ansawdd uchel gydag ymarferwyr cyn y prawf fel adnodd allweddol o wybodaeth ddibynadwy ac elfen hanfodol i gynorthwyo dewis gwybodus gan gyfranogwyr. I gynnwys:
 - a. Y potensial i ganolbwyntio mwy ar addysg ar gyfer y cynnig yn hytrach na'r pwyslais presennol ar fireinio gwybodaeth ysgrifenedig.
 - b. Ystyried rôl y rhaglen mamau a phlant fel eiriolwr i gynorthwyo digon o amser i fydwragedd drafod sgrinio.
 - c. Y posibilrwydd o hyrwyddo estyniad i'r arolwg CTM i gael data PREM cenedlaethol am sgysiau ymarferwyr â byrddau iechyd.
- 6) Ar gyfer unrhyw lansiad digidol yn gyntaf yn y dyfodol, cynnwys tasg prosiect cynnar i fapio unrhyw newidiadau mawr e.e. i safonau hygrychedd, platfform ar y we a allai ddigwydd rhan o'r ffordd drwy weithredu neu'n fuan ar ôl gweithredu er mwyn osgoi dyblygu gwaith.

Adolygu Rôl Arweinydd Llywodraethu

Mae Arweinwyr Llywodraethu mamau a phlant yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi darpariaeth barhaus gwasanaethau sgrinio cyn geni a babanod o ansawdd uchel ledled Cymru yn ystod beichiogrwydd ac yn ystod wythnosau cyntaf bywyd. Mae'r unigolion hyn a enwir yn gyfrifol am reoli rôl llywodraethu strategol eu rhaglenni sgrinio ar gyfer eu Bwrdd Iechyd Lleol (BILL).

Er bod Arweinwyr Llywodraethu yn cael eu cyflogi gan BILL ledled Cymru, mae'r rolau hyn yn cael eu cyllido gan y rhaglenni cyn geni a babanod i weithredu fel y cyswllt allweddol rhwng y rhaglenni Cymru gyfan a darparu sgrinio yn lleol i'r boblogaeth gymwys yn y BILL. O fewn Cytundebau Hirdymor presennol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyllido 0.2WTE ar lefel band 8a ar gyfer pob BILL i ddarparu'r rôl Arweinydd Llywodraethu.

Cafodd rôl yr Arweinydd Llywodraethu Mamau a Phlant ei hadolygu yn 2022 a chafodd y proffil rôl ei ddiweddarau. Disgwyliad y ddogfen fydd darparu cymorth parhaus i recriwtio a galluogi rheolaeth gyson o'r gweithwyr proffesiynol medrus hyn ar gyfer yr agwedd hon ar eu cyflogaeth. Bydd y proffil rôl hwn hefyd yn cael ei atodi i Gytundeb Hirdymor Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru/BILL Unigol er mwyn cyfeirio ato.

Cynhaliwyd cyfweiliadau anffurfiol ym mis Rhagfyr 2023 i ddeall proffil rôl unigol yr arweinwyr llywodraethu yn y bwrdd iechyd a sut y maent yn rheoli eu rôl arweinydd llywodraethu ar y cyd â'u rolau eraill. Mae'r canfyddiadau o'r cyfweiliadau yn cael eu harchwilio gan Benaethiaid y Rhaglen i ddeall llwyth gwaith, effeithiolrwydd y rôl ac a oes unrhyw rwysterau sy'n atal y rôl llywodraethu strategol. Bydd argymhellion yn cael eu bwydo yn ôl i'r byrddau iechyd.

Datblygu addysg ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol

Yn ystod 2022-2024, gwnaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru ddiweddarau a datblygu nifer o adnoddau i gynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n darparu'r rhaglen sgrinio cyn geni yng Nghymru. Adnoddau a ddiweddarwyd

- E-ddysgu ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau

Adnoddau a gyhoeddwyd

- E-ddysgu ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy - HIV, sifflis a hepatitis B

Adnoddau sy'n cael eu datblygu

- E-ddysgu ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia
- E-ddysgu ar gyfer grŵp gwaed a gwrthgyrff
- Hyfforddiant rhaeadru DNA di-gell y ffetws

Cyhoeddwyd canllaw gofyniad a amlinellodd yr amllder defnydd argymelledig ar gyfer cwblhau pob adnodd a chan ba grŵp staff. Gellir cael mynediad at yr adnoddau drwy ESR neu gall myfyrwyr neu'r rhai nad ydynt yn gallu mewngofnodi ar ESR eu cyrchu hefyd drwy Dysgu@Cymru.**Addysg i**

fydwagedd dan hyfforddiant



Ffigur 6: Adnodd dysgu rhithwir i fydwagedd dan hyfforddiant

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Gan weithio gyda Phrifysgol De Cymru, crëwyd adnodd dysgu rhithwir i roi trosolwg lefel uchel i fyfyrwyr o'r hyn yw sgrinio, sut y mae'n wahanol i ymyriadau gofal iechyd eraill ac esbonio rôl y fydwraig fel gweithiwr proffesiynol iechyd cyhoeddus. Mae'r adnodd yn cyfuno fideo ac animeiddiad ac mae wedi'i rannu'n benodau byr i fyfyrwyr gael mynediad ato drwy astudio hunangyfeiriedig. Mae hyn wedi'i rannu â'r 4 prifysgol ac roedd ar gael ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd. Gall myfyrwyr bellach gael mynediad at yr adnodd i ddarparu cyd-destun defnyddiol cyn lleoliadau/sesiynau a addysgir. Mae hyn wedi galluogi i'r sesiynau a gyflwynir gan staff y rhaglen i ganolbwyntio mwy ar atgyfnerthu dysgu a rhannu profiad, gan greu amgylchedd dysgu mwy dynamig.


Yn ogystal, mae'r adnodd dysgu rhithwir ar gael i fyfyrwyr mewn blynyddoedd eraill i gyfeirio ato, fel cymorth i adolygu at atgyfnerthu ymarfer.

Sesiynau Diweddarau gyda Bydwagedd dan Hyfforddiant

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi bod yn darparu sesiynau addysg i fydwagedd dan hyfforddiant ym mhob un o brifysgolion Cymru, sy'n darparu hyfforddiant i fydwagedd, ers 2016. Mae'r sesiynau addysgu yn cwmpasu egwyddorion sgrinio ac mae'r llwybrau sgrinio'n gysylltiedig â phob un o'r rhaglenni sgrinio cyn geni. Mae cynnwys y diweddariad addysg wedi'i ddiwygio er mwyn dilyn y llwybr sgrinio.

Y pwyslais nad yw sgrinio yn brawf yn unig – mae'n rhaglen – mae prawf ar ei ben ei hun yn annhebygol o wella iechyd oni bai bod ymyriadau effeithiol ar gael ar gyfer y cyflyrau a ganfyddir drwy sgrinio.

Mae'r rhan fwyaf o sesiynau addysgu wedi dychwelyd i sesiynau wyneb yn wyneb yn y prifysgolion. Mae hyn yn galluogi mwy o ryngweithio â'r myfyrwyr. Ffrwd waith Sgrinio Cyn Geni Cymru yn y dyfodol yw addasu'r pecyn addysgu i fyfyrwyr yn dibynnu ar lle maent yn eu hyfforddiant



Ffigur 7: Llwybr Sgrinio Cyn Geni

Adroddiad dangosyddion perfformiad chwemisol

Caiff dangosyddion perfformiad y byrddau iechyd eu cyflwyno i Sgrinio Cyn Geni Cymru bob chwe mis, ym mis Ebrill a mis Hydref. Maent yn monitro perfformiad y bwrdd iechyd yn erbyn safonau Sgrinio Cyn Geni Cymru. Mae'r dangosyddion perfformiad yn cael eu hadrodd yn ôl i Gyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus, Cyfarwyddwr/Pennaeth bydwreigiaeth, arweinwyr llywodraethu mamau a phlant, cydlynwyr sgrinio cyn geni ac arweinwyr obstetreg uwchsain y bwrdd iechyd i'w huwchgysgu o fewn byrddau iechyd unigol. Mae Cydlynwyr Rhaglen Sgrinio Cyn Geni Cymru ac arweinwyr proffesiynol ym mhob bwrdd iechyd yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod a darparu cefnogaeth mewn perthynas â'r adroddiad dangosyddion perfformiad.

Mae dangosyddion perfformiad fel arfer yn cael eu cynnal ym mis Ebrill a mis Hydref fel ffordd o archwilio safonau a phrotocolau mewn byrddau iechyd.

Yn unol â'r adolygiad safonau a phrotocol, gwnaed diwygiadau i'r dangosydd ar gyfer ailgynnig sgrinio HIV, sifflis a hepatitis B lle cafodd y prawf sgrinio ar gyfer y cyflyrau ei wrthod yn gynnar yn ystod beichiogrwydd. Cafodd yr ailgynnig ei ddiwygio o ailgynnig erbyn **28⁺6** wythnos i:

*Nifer y menywod a gafodd ailgynnig sgrinio erbyn **20⁺6** wythnos ar gyfer*
HIV
Sifflis
Hepatitis B

Byddai'r newid hwn yn galluogi rheolaeth a thriniaeth gynharach pe bai un o'r cyflyrau yn cael diagnosis. O 2024, bydd data Cymru Gyfan yn cael eu lanwytho i adroddiadau dangosyddion perfformiad byrddau iechyd i'w galluogi i gymharu eu perfformiad ar y cyd â Chymru Gyfan.

Gwaith ar draws y rhaglenni

Cynhadledd Bydwagedd dan Hyfforddiant Cymru Gyfan-Bydwreigiaeth Ddoe, Heddiw ac Yfory

Gofynnwyd i Sgrinio Cyn Geni Cymru gyflwyno yn y gynhadledd gyntaf i fydwagedd dan hyfforddiant Prifysgolion Cymru ym mis Mai 2023, a gynhaliwyd gan Brifysgol De Cymru. Roedd tua 100 o fydwagedd dan hyfforddiant yn bresennol. Roedd gan raglen Sgrinio Cyn Geni Cymru stondin er mwyn manteisio ar y cyfle i ymgysylltu â'r myfyrwyr a thrafod y sgrinio, gwybodaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau a'r adnoddau i weithwyr iechyd proffesiynol. Gwnaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru hefyd gyflwyno ar darddiad a datblygiadau sgrinio cyn geni.



Ffigur 8: Cynhadledd Bydwagedd dan Hyfforddiant Prifysgolion Cymru

Cynhadledd wyneb yn wyneb Coleg Brenhinol y Bydwagedd – Hydref 2022



cyhoeddi a chafodd y rhain eu dangos yn ystod y digwyddiad hwn.

Roedd Sgrinio Cyn Geni Cymru yn gynadleddwyr yng nghynhadledd 2 ddiwrnod Coleg Brenhinol y Bydwagedd (RCM) ym mis Hydref 2022. Hon oedd y gynhadledd wyneb yn wyneb gyntaf i'r RCM ei chynnal ers pandemig Covid. Roedd Sgrinio Cyn Geni Cymru yn gallu ymgysylltu â chydweithwyr a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau yn y rhaglen sgrinio cyn geni. Roedd animeiddiadau byr yn tynnu sylw at y llwybr ar gyfer rhaglenni sgrinio cyn geni wedi'u

Ffigur 9: Delwedd o stondin Sgrinio Cyn Geni Cymru-Cynhadledd RCM

Mamolaeth Ddigidol Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid o'r Gronfa Buddsoddi mewn Blaenoriaethau Digidol i Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) i gynnal cam darganfod prosiect Mamolaeth Ddigidol Cymru. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi ymgysylltu â Mamolaeth Ddigidol Cymru i bennu cwpas y gofynion ar gyfer monitro safonau Sgrinio Cyn Geni Cymru mewn byrddau iechyd yng Nghymru o fewn ateb digidol ar gyfer cofnodion mamolaeth. Bydd yr ateb o ran gallu adolygu gwybodaeth sgrinio amser real yn galluogi'r byrddau iechyd i fonitro ansawdd y rhaglenni sgrinio cyn geni, a monitro themâu a materion sy'n peri pryder y gellir eu nodi a'u hadrodd yn hwyr ar hyn o bryd oherwydd diffyg data amser real a ategir gan system ddigidol. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru, mewn partneriaeth ag arweinwyr byrddau iechyd, wrthi ar hyn o bryd yn pennu cwpas adrodd ar ddangosyddion perfformiad yn y dyfodol yn unol â data amser real.

Caffael System Gwybodaeth Radioleg (RISP)

Yn dilyn proses gaffael gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW), dyfarnwyd y contract i Phillips ar gyfer system gwybodaeth radioleg Cymru gyfan yn 2023. Bydd gweithredu system *Soliton* Phillips yn dechrau yng ngwanwyn 2025 ar sail Bwrdd Iechyd unigol a rhagwelir y bydd yn cymryd dwy flynedd. Fel rhan o'r newid hwn bydd adrodd obstreteg yn symud i *Viewpoint*, mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn gweithio ar y cyd â'r tîm gweithredu tuag at safoni adroddiadau ar gyfer sganiau sgrinio yn unol ag arfer presennol.

Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) a Phorth Clinigol Cymru (WCP)

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn gweithio gyda DHCW ar gyfer hygyrchedd canlyniadau sgrinio ar gyfer syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) i'w lanlwytho i WCP. Mae'r broses canlyniadau ar gyfer T13, 18 a 21 yn cael ei rheoli mewn clinigau cyn geni yng Nghymru. Ond bydd ychwanegu lanlwytho'r canlyniadau i WCP yn cynorthwyo clinigwyr i weld yr adroddiadau ac yn benodol marciwr serwm y mae rhai byrddau iechyd yn ei ddefnyddio wrth reoli babi sy'n fach o ran oedran cyfnod beichiogrwydd.

Adborth defnyddwyr gwasanaethau ar wybodaeth am cffDNA i fenywod

Fel rhan o'r prosiect cffDNA, gwnaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru ar y cyd â Thîm Ymgysylltu â Sgrinio (SET) Iechyd Cyhoeddus Cymru adolygu a datblygu gwybodaeth i'r cyhoedd cyn cael profion cyn geni yn ogystal â datblygu gwybodaeth benodol ar gyfer cffDNA. Sicrhaodd hyn fod gwybodaeth yn addas at y diben ac yn glir i ddefnyddwyr gwasanaethau ei deall. Roedd rhan o'r gwaith hwn yn cynnwys ymweld â sawl bwrdd iechyd ledled Cymru a chael adborth defnyddwyr gwasanaethau gan boblogaeth amrywiol ar wybodaeth arfaethedig.

Gwaith penodol i raglenni


Uwchsain ac Anomaledd y Ffetws

Cyflwyno adroddiadau i DQASS Ddwywaith y Flwyddyn

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn comisiynu gwasanaeth cefnogi sicrwydd ansawdd sgrinio syndrom Down (DQASS) i fonitro a chefnogi perfformiad y llwybr sgrinio syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T18) yng Nghymru. Mae Labordy Biocemeg Cymru gyfan ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn cyflwyno data i DQASS ddwywaith y flwyddyn. Mae hyn yn cynnwys yr holl fesuriadau pâr hyd y babi o'r corun i'r pen ôl (CRL) a thryloywder y gwegil (NT) ar gyfer yr holl sonograffwyr sy'n darparu sgrinio. Mae gan bob sonograffydd god adnabod unigryw (cod DQASS) a gyflwynir ynghyd â'r mesuriadau ar yr un ffurflen. Mae DQASS yn creu plot ar gyfer pob sonograffydd sy'n asesu gogwydd, lledaeniad a thuedd yn erbyn cromlin gyfeirio Sefydliad Meddygaeth y Ffetws a chyhoeddi statws baner yn unol â hynny.

Dyfernir baner i sonograffwyr er mwyn cofnodi eu perfformiad.

- Baner werdd yw pan fo'r gogwydd ar gyfer y plot yn llai na 0.1 ac nid oes tystiolaeth o wahaniaeth sylweddol o ran lledaeniad na thuedd o'r cromlin gyfeirio FMF
- Baner oren yw lle mae'r gogwydd rhwng 0.1 a 0.3 neu mae gwahaniaeth sylweddol o ran lledaeniad neu duedd o'r cromlin gyfeirio FMF
- Baner goch yw lle mae'r gogwydd yn fwy na 0.3 Ni roddir unrhyw faneri coch ar gyfer gwahaniaethau o ran lledaeniad neu duedd
- Baner wen yw lle mae sonograffydd yn cyflawni llai na 25 o fesuriadau pâr dros gylch o 6 mis, neu lai na 50 y flwyddyn. Mae hyn yn atal DQASS rhag cyflawni dehongliad plot ystyrlon.




Ffigur 10: Plot unigol DQASS ar gyfer sonograffydd

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.




Mae sonograffwyr sydd â gogwydd o >0.3 yn cael baner goch a'u hoedi dros dro rhag cynnal sganiau sgrinio cyfun yn annibynnol, oherwydd bydd eu mesuriadau'n effeithio'n negyddol ar berfformiad y rhaglen sgrinio.



Ffigur 11: Plot unigol sonograffydd sy'n dangos gogwydd

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

O fewn yr amserlen adrodd hon mae 1.4% o sonograffwyr wedi cael baner goch. O ganlyniad i roi baner goch, mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn gweithio gydag arweinwyr tryloywder y gwegil (NT) ac arweinwyr llywodraethu mamau a phlant byrddau iechyd er mwyn cytuno ar gynllun gweithredu sy'n cynnwys ymarfer â chymorth a chefnogaeth emosiynol. Rhaid i sonograffwyr gyflwyno 25 o fesuriadau pâr er mwyn rhoi statws baner newydd cyn ailddechrau ymarfer annibynnol.



Ffigur 12 : Graff sy'n dangos statws baner sonograffydd

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Canfu Astudiaeth Cymru o Famau a Babanod (2014) fod 30% o achosion o goluddyn ecogenig yn y ffetws wedi'u hailddosbarthu fel rhai normal ar ôl adolygiad arbenigol. Yn 2020, archwiliodd cynghorydd uwchsain obstetreg Sgrinio Cyn Geni Cymru a chydlynedd rhaglen uwchsain Sgrinio Cyn Geni Cymru achosion o goluddion ecogenig a chanfuwyd bod 26.5% wedi'u hailddosbarthu fel rhai normal. Yn dilyn yr archwiliad hwn, cafodd y canllawiau delweddu eu diwygio yn 2022 gyda mewnbwn gan arweinwyr uwchsain obstetreg ledled Cymru, gyda'r nod o wella hyder diagnostig. Cafodd hyn ei weithredu ym mis Mehefin 2023. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn bwriadu ailarchwilio yn 2024/2025 i fesur a fu gwelliant mewn cywirdeb diagnostig.



Ffigur 13: Delwedd sy'n dangos coluddyn ecogenig a chyda'r medrydd wedi'i droi i lawr yn dal i fod mor llachar ag asgwrn

Adolygiad o ddelweddau Arweinwyr NT byrddau iechyd gan Sgrinio Cyn Geni Cymru

Mae arweinwyr NT yn cynnal archwiliadau o ddelweddau pâr ar gyfer sonograffwyr ddwywaith y flwyddyn fel rhan o sicrwydd ansawdd parhaus y rhaglen, argymhellir mwy archwilio amlach lle mae staff yn dychwelyd baner oren. Disgwylir i arweinwyr NT gyflwyno delweddau ddwywaith y flwyddyn i'w hasesu'n allanol i gydlynedd rhaglen Sgrinio Cyn Geni Cymru sy'n arwain ar gyfer y rhaglen uwchsain.

Ffigur 14: Adroddiad cryno sonograffydd

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Sonographer summary report

DQASS

Hospital: Cycle 35 (January 2024)
 Region: University Hospital of Wales
 Screening laboratory:

Sonographer ID	Number of scans	Median CRL (mm)	Median NT (mm)	Bias (mm)*
180	180	65.8	1.8	0.02
164	164	64.0	1.7	-0.00
153	153	65.0	1.7	0.02
138	138	64.7	1.7	0.01
105	105	64.1	1.7	-0.03
93	93	63.6	1.7	0.06
83	83	65.5	1.6	-0.07
76	76	64.8	1.6	-0.14
71	71	65.0	1.8	0.01
65	65	64.4	1.6	-0.03
59	59	66.4	1.7	-0.05
57	57	63.7	1.6	-0.13
56	56	66.2	1.7	-0.04
42	42	64.2	1.7	0.14
27	27	62.1	1.8	0.09

Notes:
 1. These flags are based on statistical summaries from the NT & CRL measurements supplied. They do not provide any assurance of the quality of the images on which the results are based nor on the positioning of callipers.
 2. These diagnostics should be read in conjunction with the individual sonographer outputs (which are also available as a pdf file).
 3. The flag shown in parentheses is that assigned in the previous cycle.
 * The bias shown is the median deviation from the PMF reference curve.

Sonographer flag summary

Flag	Number of sonographers	Number of scans	Percentage of scans
12	12	1194	87.2
3	3	175	12.8
0	0	0	0.0
0	0	0	0.0
Total	15	1369	

Proses adborth DQASS

Mae 10 mlynedd ers gweithredu sgrinio cyfun yng Nghymru ac mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn gweithio ochr yn ochr â'r arweinwyr NT yn y byrddau iechyd i archwilio sut y gall byrddau iechyd ac arweinwyr NT gymryd mwy o ran ym mhroses adborth DQASS. Ar hyn o bryd mae'r gwaith o ledaenu holl adborth DQASS yn cael ei arwain gan Sgrinio Cyn Geni Cymru ond mae cynlluniau i symud i ddull sy'n cael ei ysgogi yn fwy gan fyrddau iechyd, bydd yr holl adroddiadau'n cael eu gwirio a'u gweithredu yn y byrddau iechyd gyda data perfformiad yn cael eu bwydo yn ôl i Sgrinio Cyn Geni Cymru.


Diweddariadau addysgol sonograffwyr

Sgrinio Cyfun – Ym mis Chwefror 2023, cynhaliodd Sgrinio Cyn Geni Cymru weithdy ar-lein a ddarparwyd gan DQASS. Roedd y gweithdy ar agor i bob sonograffydd sy'n ymwneud â darparu sgrinio cyfun i fenywod yng Nghymru, ond gofynnwyd i arweinwyr NT flaenoriaethu eu presenoldeb. Roedd y gweithdy yn trafod effaith mesuriadau hyd y babi o'r corun i'r pen ôl (CRL) ac NT ar berfformiad profion ynghyd â thrafodaethau ynghylch dehongli plotiau. Aeth nifer o bobl i'r gweithdy a chafodd adborth cadarnhaol. Cafodd recordiad o'r gweithdy ei gynnal ar blatfform proffesiynol Sgrinio Cyn Geni Cymru i'w wyllo ymhellach.

Uwchsain y galon – Ym mis Tachwedd 2022 a mis Ionawr 2024 cyllidodd Sgrinio Cyn Geni Cymru 42 o sonograffwyr i fynd i gyfarfod Rhwydwaith Cardiofasgwlaidd y Ffetws yn yr Academi Delweddu Genedlaethol. Mae hyn yn sicrhau bod hyfforddiant a diweddariadau yn cael eu darparu ar gyfer y rhaglen uwchsain. Mae arbenigwyr cymwysiaid cardioleg ac uwchsain y ffetws yn cyflwyno cyfarfodydd sy'n hysbysu am anomaledau ar y galon cynhenid cyffredin ac optimeiddio delweddu.

Gwybodaeth ysgrifenedig am uwchsain i fenywod

Gwybodaeth am eich sgan – yn 2009, gwnaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru mewn partneriaeth â sonograffwyr a bydwagedd ddatblygu taflenni gwybodaeth i fenywod beichiog yn dilyn sganiau sgrinio. Trafododd y taflenni hyn ganlyniadau sgan posibl ac roeddent ar gael i sonograffwyr fel gwybodaeth atodol i'w darparu i fenywod ar yr un pryd â'r drafodaeth ar ganfyddiad y sgan. Bu rhywfaint o amrywiad yn y defnydd o'r canlyniadau copi caled a chytunwyd y bydd eu cynnwys yn cael ei ystyried fel rhan o waith parhaus i ddatblygu Cofnod Mamolaeth electronig Cymru gyfan.



Ffigur 15: Enghraifft o daflenni gwybodaeth yn dilyn sganiau sgrinio

Pennu cwnpas ychwanegu mesur cylch yr abdomen at y sgan anomaledd rheolaidd

Yn 2016, yn dilyn ceisiadau gan glinigwyr obstetreg i gynnwys cylch yr abdomen ym mhob sgan anomaledd rheolaidd, comisiynodd Sgrinio Cyn Geni Cymru gofrestrydd iechyd cyhoeddus i adolygu'r llenyddiaeth sydd ar gael. Canlyniad yr adolygiad hwn o'r dystiolaeth oedd nad oedd digon o dystiolaeth i gyfiawnhau newid mewn ymarfer. Cefnogwyd hyn gan grwpiau cynghori Sgrinio Cyn Geni Cymru, lle teimlwyd y byddai gofynion ychwanegol o ran hyfforddiant ac amser. Yn dilyn ymholiadau pellach gan glinigwyr yn 2022, gwnaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru unwaith eto drafod y mesuriad ychwanegol gyda'i grwpiau cynghori. Canfuwyd bod y farn arbenigol wedi newid, ac er nad oedd dystiolaeth newydd ar gael, roedd cefnogaeth gyffredinol ar gyfer ei gyflwyno. Cymeradwydd Pwyllgor Sgrinio Cymru (WSC) y newid hwn i'r rhaglen ym mis Tachwedd 2023 yn dilyn sicrwydd gan reolwyr gwasanaeth radioleg y gellid cynnwys hyn heb adnoddau ychwanegol. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn arwain ar y gweithredu ac mae wedi cynnull grŵp gorchwyl a gorffen o randdeiliaid i gynllunio gweithredu mesur cylch yr abdomen yn ddiogel fel rhan o'r llwybr sgan anomaledd a sgrinio. Mae'r gweithredu wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref 2024 ar gyfer pob bwrdd iechyd yng Nghymru a bydd Sgrinio Cyn Geni Cymru yn darparu gwerthusiad parhaus o'r llwybr.

Grŵp Gwaed a Gwrthgyrff – Sgrinio DNA di-gell y ffetws (cffDNA)

Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Sgrinio Cyn Geni Cymru gwrdd â Gwasanaeth Gwaed Cymru a phennu cwnpas dichonoldeb cynnig profion DNA di-gell y ffetws ar gyfer genotype RHD ffetysol i fenywod beichiog sy'n D negatif a heb eu sensiteiddio i antigen D.

Yn dilyn trafodaethau rhwng Sgrinio Cyn Geni Cymru a Gwasanaeth Gwaed Cymru, cyflwynwyd papur

briffio â bwriad lefel uchel i Bwyllgor Sgrinio Cymru er mwyn cael cytundeb i symud y ffrwd waith hon ymlaen. Cafodd y prosiect hwn ei gymeradwyo gan Bwyllgor Sgrinio Cymru yn 2018. Enw'r prosiect yng Nghymru yw Sgrinio DNA di-gell y ffetws (CffDNA). Gyda dechrau pandemig byd-eang Covid-19, cafodd y prosiect ei atal dros dro gyda thrafodaethau'n ailddechrau ym mis Ionawr 2022. Ers mis Mehefin 2022 mae'r prosiect wedi cynnal llawer o ffrydiau gwaith i alluogi gweithredu ar draws y saith bwrdd iechyd ar yr un pryd.

Roedd cydweithio wedi galluogi Sgrinio Cyn Geni Cymru, Gwasanaeth Gwaed Cymru, byrddau iechyd, y Tîm Ymgysylltu â Sgrinio (SET) yn ogystal ag ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau i gynorthwyo datblygiad y wybodaeth i'r cyhoedd er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cael ei weithredu ar 13 Mai 2024. Drwy gydweithio llwyddwyd i reoli a chyflawni amcanion y prosiect.

Ffrydiau Gwaith:

Bwrdd Prosiect

Cytunwyd ar fwrdd prosiect yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol er mwyn llywio a datblygu'r gwaith o weithredu sgrinio cffDNA ledled Cymru ar gyfer menywod sy'n RhD negatif. Rhan o'r cylch gwaith oedd cytuno ar wybodaeth, datblygu addysg, arweiniad, safonau, a phrotocolau ar gyfer gweithredu. Roedd hefyd yn allweddol i alluogi cyfathrebu clir a thryloyw ar gyfer hyd y prosiect.

Gweithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Gwaed Cymru

Roedd yn hanfodol cydweithio â Gwasanaeth Gwaed Cymru gan y byddent yn profi'r holl samplau cffDNA ar gyfer Cymru. Cafodd y gwaith o gyn dilysu a dilysu'r pecynnau â nod CE (Conformite Europeenne-Cydymffurfiaeth Ewropeaidd), a fyddai'n profi'r samplau, yn ogystal â datblygu'r llwybr profi o'r dechrau i'r diwedd ei reoli o safbwynt labordy.

Tîmau Gweithredu Byrddau Iechyd

Datblygwyd tîmau gweithredu byrddau iechyd unigol gydag aelodaeth briodol i hwyluso'r gwaith o reoli a'r camau gweithredu gofynnol, yn dilyn cytundeb gan y bwrdd Prosiect.

Roedd hyn er mwyn sicrhau:

- bod y byrddau iechyd yn gallu gweithredu'r cynnig cffDNA yn ddidrafferth
- bod yr holl staff perthnasol yn cael eu haddysgu gydag adnoddau wedi'u datblygu,
- cynnig cffDNA i'r rhai sy'n gymwys ac y gallai menywod gael eu cynorthwyo'n briodol i wneud dewis gwybodus.



Adnoddau Sgrinio Cyn Geni Cymru a ddatblygwyd yn barod ar gyfer gweithredu'r cynnig cffDNA i fenywod RhD negatif

Gwybodaeth i fenywod

- Gwybodaeth ysgrifenedig ac animeiddiad cyn y prawf

Mae pob menyw feichiog sy'n cyflwyno ar gyfer gofal cyn geni yn cael ei chyfeirio i wybodaeth cyn prawf Sgrinio Cyn Geni Cymru sy'n cynnwys gwybodaeth am y llwybr sgrinio ac animeiddiad byr.

- Gwybodaeth ar ôl prawf ar gyfer menywod sy'n RhD negatif

Byddai pob menyw gymwys yn cael gwybodaeth ar ôl y prawf sy'n esbonio'n benodol am y prawf sgrinio cffDNA. Byddai'r wybodaeth hon yn ychwanegol at y drafodaeth berthnasol gyda'r gweithiwr iechyd proffesiynol. Adnoddau ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â'r llwybr Grŵp Gwaed a Gwrthgyrff yn ystod beichiogrwydd.

Mae sawl adnodd wedi'i ddatblygu i gynorthwyo bydwagedd, bydwagedd dan hyfforddiant a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill â'r cynnig a rheoli gofal.

- Prawf sgrinio cffDNA: Canllaw i Weithwyr Iechyd Proffesiynol. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru a Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi datblygu'r adnodd hwn i ddarparu arweiniad i fydwragedd sy'n cwblhau'r cerdyn cais sgrinio ar gyfer sgrinio cffDNA.
- Mae Adnodd Senarios wedi'i ddatblygu i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â darparu sgrinio cffDNA.
- Sgrinio grŵp gwaed a gwrthgyrff llwybr genoteipio DNA di-gell y ffetws. Mae'r adnodd hwn wedi'i ddatblygu i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â darparu sgrinio cffDNA.
- SOP cymerwr samplau cffDNA - mae Sgrinio Cyn Geni Cymru a Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi datblygu'r adnodd hwn i ddarparu arweiniad i fydwragedd sy'n cwblhau'r cerdyn cais sgrinio ar gyfer sgrinio cffDNA.

Polisiâu, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru

Mae Polisi, Safonau a Phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi'u hadolygu i gynnwys cynnig a rheoli cffDNA. Bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar SharePoint Sgrinio Cyn Geni Cymru cyn eu gweithredu y disgwylir iddo ddechrau ar 13 Mai 2024.

Diweddariad e-ddysgu

Mae adnodd e-ddysgu ar gyfer sgrinio grŵp gwaed, sgrinio RhD, sgrinio gwrthgyrff a chynnig sgrinio cffDNA yn ystod beichiogrwydd wedi'i baratoi yn ystod y cam prosiect a bydd ar gael i weithwyr iechyd proffesiynol o fis Gorffennaf 2024. Mae'r adnodd hwn i gynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â darparu'r sgrinio grŵp gwaed, sgrinio RhD, sgrinio gwrthgyrff a'r rhaglen sgrinio cffDNA yn y GIG yng Nghymru.

Hyfforddiant Rhaeadru cffDNA

Mae'r adnodd wedi'i baratoi gan Sgrinio Cyn Geni Cymru ac mae wedi'i anelu at fydwragedd, obstetryddion, nyrsys, a staff labordy sy'n gweithio mewn labordai trallwysiad. Mae'n cynnwys gwybodaeth am reoli menywod beichiog yn ystod eu beichiogrwydd, y geni ac yn dilyn y geni, y mae eu grŵp gwaed yn D negatiff. Bydd y cynnwys a drafodir yn darparu gwybodaeth am sgrinio DNA di-gell y ffetws (cffDNA) gan gynnwys:

- Beth yw cffDNA?
- Pam cynnig sgrinio?
- Pwy sy'n gymwys am sgrinio?
- Perfformiad y prawf

Gweithredu a'r llwybr sgrinio

Cafodd yr adnodd addysg ei gyhoeddi ar 15 Mawrth 2024 ac argymhellodd fod gweithwyr iechyd proffesiynol a fydd yn cynnig y prawf sgrinio o 13 Mai 2024, yn cwblhau'r adnodd erbyn diwedd mis Ebrill 2024 er mwyn darparu gwybodaeth gyfredol i fenywod.



Ffigur 16: Adnodd addysg-sgrinio DNA di-gell y ffetws

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

CffDNA - Adnodd canllaw i weithwyr proffesiynol

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Prosiect cffDNA ac mae ar gael i ddarparu gwybodaeth ychwanegol i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â darparu sgrinio cffDNA.



Ffigur 18: Adnodd proffesiynol ar gyfer rheoli DNA di-gell y ffetws

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Gwerthuso cffDNA

Bydd gwerthusiad o'r prosiect a fydd yn dechrau ym mis Gorffennaf 2024 ac yn ffurfio gwerthusiad blwyddyn i geisio monitro'r llwybr a pherfformiad y prawf sgrinio.

Mae trafodaethau'n parhau ar hyn o bryd o ran nodau ac amcanion y gwerthusiad. Bydd y bwrdd gwerthuso yn cynnwys llawer o'r rhanddeiliaid allweddol a oedd yn rhan o'r bwrdd prosiect ochr yn ochr â rhai aelodau o'r Tîm Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus.



Clefyd y crymangelloedd a thalasaemia



Adolygiad o'r llwybr newyddenedigol: Ymchwilio i anhwylderau haemoglobinopathi yn y newydd- anedig a'u hatgyfeirio

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn adrodd ar amseroldeb atgyfeirio a rheoli babanod ag anhwylderau haemoglobinopathi a amheuir a'r rhai sydd wedi cael diagnosis o hyn. Nododd y Dangosyddion Perfformiad nad oedd y safon yn cael ei chyrraedd. Cafodd y llwybr ei adolygu ym mis Ionawr 2023, yn unol â pherfformiad dangosyddion perfformiad ac roedd cynnydd yn Datix wedi'i amlygu gan un o'r Labordai Haemoglobinopathi ar gyfer amseroldeb atgyfeirio babanod. Cynhaliwyd archwiliad ôl-weithredol gyda'r amcan o archwilio babanod a gafodd ddiagnosis o anhwylder y cymargelloedd o sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig a gafodd eu hapwyntiad clinig cyntaf a phenisilin proffylaxis o fewn yr amserlen a argymhellir yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Cafodd 18% o fabanod eu hatgyfeirio yn unol â'r canllawiau. Felly, roedd angen adolygiad amserol ar y llwybr.

Cafodd y llwybr ar gyfer y neonatolegyddion ar gyfer ymchwilio i anhwylderau haemoglobinopathi mewn babanod newydd-anedig a'u hatgyfeirio ei adolygu a'i ddiweddarau. Roedd dull amlddisgyblaethol ar gyfer yr adolygiad yn werthfawr gyda mewnbwn gan Sgrinio Cyn Geni Cymru a:

- chydweithwyr pediatrig
- Gwasanaethau Genomeg Cymru Gyfan
- labordy haemoglobinopathi
- Cydlynwyr y rhaglen smotyn gwaed newydd-anedig, a
- nyrsys arbenigol ledled Cymru.

Cafodd y llwybr newyddenedigol ei rannu â'r cydlynwyr sgrinio cyn geni ac arweinwyr llywodraethu mamau a phlant ledled Cymru i'w raeadru o fewn yr adrannau newyddenedigol yn y Byrddau Iechyd. Gan fod hwn yn ddull cydweithredol i wella'r llwybr mae wedi'i gyhoeddi ar SharePoint Sgrinio Cyn Geni Cymru ac yn dilyn cytundeb, ar wefan y Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol ers mis Mehefin 2023.



Ffigur 19: Llwybrau ar gyfer rheoli alffa thalasaemia a newyddenedigol posibl

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Adolygiad alffa thalasaemia posibl +/- diffyg haearn

Nodwyd bod amrywiad o ran sut y mae byrddau iechyd ledled Cymru yn dehongli ac yn rheoli canlyniadau 'alffa thalasaemia posibl +/- diffyg haearn' yn dilyn sgrinio cyn geni.

Wrth adolygu'r dystiolaeth o'r canfyddiad hwn, canfuwyd nad yw hyn yn peri risg i fenywod sydd â chanlyniad alffa thalasaemia posibl +/- diffyg haearn. Mae'n allweddol nodi bod y canlyniadau hyn dim ond ar gyfer menywod lle nad oes angen cynnig profion i dad biolegol y babi a lle mae'r tarddiad teulu wedi'i gwblhau ac felly nid yw'n cael ei ddehongli fel canlyniad clinigol arwyddocaol ar gyfer y cyflwr penodol hwn.


Cafodd llwybr ei ddyfeisio a chytuno arno lle mae'r canlyniadau hyn yn cael eu rheoli mewn amserlen sy'n dderbyniol i'r canfyddiad. Cafodd gwybodaeth Sgrinio Cyn Geni Cymru i fenywod ei diwygio yn unol â'r llwybr diwygiedig.

Gweithiodd Sgrinio Cyn Geni Cymru gyda chydlynwyr sgrinio cyn geni ar raeadrur llwybr newydd i fydwragedd cymunedol i'w galluogi i hysbysu'r fenyw am y canlyniad yn yr apwyntiad cyn geni 16 wythnos.

Cytunodd y byrddau iechyd i lunio arweiniad lleol i fenywod sydd â diffyg haearn yn ystod beichiogrwydd gan fod hyn y tu allan i gylch gwaith Rhaglen Sgrinio Cyn Geni Cymru.

Diweddariad i gymhorthion addysgu-cerdyn cais haemoglobinopathi mamau a cherdyn cais ar gyfer tad biolegol y tad

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn paratoi cymhorthion addysgu gweledol i gefnogi'r Rhaglen. Mae adolygiad o'r cymorth addysgu haemoglobinopathi wedi'i gyhoeddi ac mae'n cynnwys cysylltu canlyniad y fam â'r cais am sampl ac adrodd ar gyfer tad biolegol y babi. Dylai hyn arwain at nifer y samplau a wrthodwyd yn dilyn tad biolegol y babi. Cafodd y cymorth addysgu ei gyhoeddi ym mis Mai 2022.



Completion of maternal antenatal Sickle Cell and Thalassemia screening request card

Identification of the woman
Clear identification of the woman is required to ensure results are attributed to the correct individual.

Lead professional/hospital
Clear details of where to send the report are required. Please state if Royal Glamorgan or Royal Gwent. RGH is not sufficient as a location.

Requester details
Requester details need to be printed, if signature is required on the consent form please ensure it is legible.

Family origin questionnaire (FOQ)
Only tick the correct box, as it is vital to determine the level of screening that is required. Ticking the incorrect consent box may lead to a potentially at risk unborn baby not being detected.

Date of collection
It is essential to date the sample for the laboratory to test in a timely manner.

Test request
Haemoglobinopathy screen

Clinical details
Please handwrite: Woman's name, hospital number and date of birth. Biological father's details can be linked with woman's details. Please do not add the woman's address/telephone number to the request form. Document if biological father of the baby has had a bone marrow transplant.

Completion of antenatal Sickle Cell and Thalassemia screening Request card for baby's biological father testing

Please print requesters name clearly
(some request cards will require a signature also, again please ensure it is legible)

Lead professional/hospital
Clear details of where to send the report is required. Please state if Royal Glamorgan or Royal Gwent. RGH is not sufficient as a location.

Identification of the biological father
All information of the biological father will need to be hand written: name, address, date of birth, hospital number or NHS number if known.

Date of collection
It is essential to date the sample for the laboratory to test in a timely manner.

Test request
Haemoglobinopathy screen

Clinical details
Please handwrite: Woman's name, hospital number and date of birth. Biological father's details can be linked with woman's details. Please do not add the woman's address/telephone number to the request form. Document if biological father of the baby has had a bone marrow transplant.


Warning: This is not a universal request card so request cards will differ however the sections are all pertinent.

Ffigur 20: Cymhorthion gweledol ar gyfer cwblhau cardiau cais yn gywir

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

E-ddysgu haemoglobinopathi i weithwyr iechyd proffesiynol

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi paratoi pecyn e-ddysgu ar sgrinio clefyd y crymangelloedd a thalasaemia yn ystod beichiogrwydd. Bwriedir i hwn fod ar gael i weithwyr iechyd proffesiynol ar ôl mis Ebrill 2024.



Ffigur 21: Sgrin lun o becyn e-ddysgu clefyd y crymangelloedd a thalasaemia

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.


Algorithm Cyffredinrwydd Isel

Ar hyn o bryd mae Cymru wedi'i nodi fel ardal cyffredinrwydd isel ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia (SCT) ond mae data sy'n dod i'r amlwg o Labordy Haemoglobinopathi Cymru Gyfan yn dangos bod hyn yn newid a gall Cymru fod yn agosáu at fod yn ardal cyffredinrwydd uchel. Bwriedir cynnal adolygiad yn 2024-2025 i ystyried y camau nesaf.

Newid acronymau yn y cerdyn cais

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi gweithio gyda Labordy Haemoglobinopathi Cymru Gyfan i symleiddio'r acronymau a ddefnyddir yn y broses cais am brawf ar draws pob labordy yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi gwneud cais yn fwy diogel a rhwyddineb archwilio labordai. Nid oedd effaith o fewn ymarfer clinigol ar gyfer y newid. Cynhelir archwiliad o ymarfer yn ddiweddarach yn 2024.

Mae'r acronymau yn bwysig fel rhan o'r broses gydsynio i nodi menywod sy'n wynebu risg uchel o fod yn gludydd amrywiolyn haemoglobin. Mae'r acronymau yn nodi menywod yr ystyrir eu bod yn wynebu risg uchel neu isel yn seiliedig ar eu tarddiad teulu.



Ffigur 22: Sticer cerdyn cais yn dangos acronymau wedi'u symleiddio

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.



Cyflwyno cais am brawf electronig (ETR) yn ddiogel

Mae gwaith pellach gyda chydweithwyr yn y byrddau iechyd ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) yn mynd rhagddo i sicrhau bod proses ddiogel yn ei lle wrth wneud cais am brawf electronig (ETR) am y prawf sgrinio cyn geni ar gyfer clefyd y crymangelloedd a thalasaemia. Yn flaenorol, roedd rhai byrddau iechyd wedi gweithredu ETR ar gyfer y prawf sgrinio ond codwyd rhai pryderon ynghylch cydsynio. O ystyried hyn, mae un bwrdd iechyd wedi rhoi'r gorau i ETR dros dro ar gyfer sgrinio clefyd y crymangelloedd a thalasaemia ac mae byrddau iechyd eraill sydd wedi cyflwyno ETR ac yn ymwybodol o'r pryderon yn rheoli eu prosesau er mwyn lliniaru'r materion.

Taflenni Cludydd Haemoglobinopathi

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi cynnal adolygiad bob dwy flynedd o daflenni cyhoeddedig lle canfuwyd statws cludydd ar gyfer un o'r cyflyrau y sgriniwyd amdano. Diben y taflenni digidol yw darparu gwybodaeth am yr hyn y mae'n ei olygu i'r fenyw a'i theulu pan gaiff ddiagnosis ei bod yn gludydd. Mae'r wybodaeth yn ategu trafodaethau gyda gweithiwr iechyd proffesiynol i gynorthwyo dealltwriaeth. Byddai tad biolegol y babi yn cael cynnig profion os yw mam y babi yn gludydd er mwyn asesu'r risg i'r beichiogrwydd presennol a hefyd i unrhyw blant y gallai'r cwpwl eu cael gyda'i gilydd yn y dyfodol. Mae gwaith pellach gyda Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig Cymru wedi'i gynllunio o fis Mai 2024 i symleiddio'r wybodaeth a ddarperir o ofal cyn geni hyd at ofal i'r newydd-anedig.

Adolygu safonau a phrotocolau penodol clefyd y crymangelloedd a thalasaemia

Fel rhan o adolygiad 3 blynedd polisi, safonau a phrotocol Sgrinio Cyn Geni Cymru, roedd diwygiadau penodol i'r rhaglen clefyd y crymangelloedd a thalasaemia yn cynnwys symleiddio'r llwybr atgyfeirio cwnsela i Wasanaethau Gwasanaethau Genomeg Cymru Gyfan ar gyfer:

- beichiogrwydd gyda rhoddwr wy/rhoddwr sberm lle mae'r rhoddwr yn hysbys. Nododd y safon i ddechrau mewn achos o feichiogrwydd mam fenthyg a gyflawnwyd gan wy rhoddwr neu sberm rhoddwr sy'n anhysbys, lle na ellir mesur y risg i'r ffetws yn gywir, dylid cynnig atgyfeirio i'r fenyw i Wasanaethau Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (AWMGS). Mewn achosion lle mae'r wy rhoddwr neu'r sberm rhoddwr yn hysbys yn bendant, nid yw'n angenrheidiol agtgyfeirio i AWMGS.

Syndrom Down (T21), syndrom Edwards (T18) a syndrom Patau (T13) a'r Rhaglen Sgrinio Anomaledd y Ffetws

Cyflwyniad gwerthusol o brofion cynenedigol anfewnwthiol

Roedd ychwanegu NIPT fel rhan o'r newid hwn yn un o'r argymhellion gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU (UKNSC) fel cyflwyniad gwerthusol ar gyfer beichiogrwydd sengl. Dechreuodd y cynnig profi cynenedigol anfewnwthiol (NIPT) i fenywod sydd â beichiogrwydd sengl a beichiogrwydd

gefeilliaid sy'n cael canlyniad sgrinio siawns uwch ar gyfer syndrom T21 neu T18/13 ym mis Ebrill 2018 a mis Mehefin 2021 yn y drefn honno. Cafodd y canfyddiadau o'r cyflwyniad gwerthusol eu cyhoeddi ym mis Mai 2022.

Gwerthusiad NIPT

Argymhellodd UKNSC fod ychwanegu'r cynnig profi cynenedigol heb lawdriniaeth yn cael ei weithredu fel cyflwyniad gwerthusol. Nod y gwerthusiad o NIPT oedd ateb y pedwar cwestiwn canlynol:

1. Pa effaith y mae NIPT yn ei chael ar y penderfyniadau y mae menywod a'u partneriaid yn eu gwneud?
2. Beth yw perfformiad y prawf ar gyfer T18 a T13?
3. Pa mor aml y ceir "dim canlyniad" o NIPT?
4. Beth yw'r amser a gymerir i fenywod gael canlyniadau NIPT?

Yn dilyn gweithredu'n llwyddiannus, sefydlodd Sgrinio Cyn Geni Cymru Fwrdd Gwerthuso i fonitro'r cyflwyniad gwerthusol o NIPT. Roedd y cyfnod gwerthuso hwn yn cynnwys 3 blynedd o'r cynnig NIPT. Roedd hyn yn cynnwys yr holl ganlyniadau beichiogrwydd ar gyfer menywod a ddewisodd sgrinio T13, T18 a T21 rhwng mis Ebrill 2018 a mis Tachwedd 2021. Cytunodd Pwyllgor Sgrinio Cymru ar yr adroddiad cyflwyniad gwerthusol terfynol ym mis Gorffennaf 2022.

Canfyddiadau yn dilyn y cyflwyniad gwerthusol tair blynedd.

Cafodd menywod eu hysbysu a'u cefnogi yn eu dewisiadau a'u bod yn deall y gallent adael y llwybr ar unrhyw adeg. Roedd hyn yn amlwg yn y canfyddiadau'r o'r cyflwyniad gwerthusol. Cafodd canfyddiadau 19 mis cyntaf y cyflwyniad gwerthusol eu cyhoeddi ym mis Mai 2022 Prenatal Diagnosis

[Implementation of non-invasive prenatal testing within a national UK antenatal screening programme: Impact on women's choices - Bowden - 2022 - Prenatal Diagnosis - Wiley Online Library](#)

Implementation of non-invasive prenatal testing within a national UK antenatal screening programme: Impact on women's choices

Bethan Bowden, Sikha de Souza, Alice Puchades, Kindry Williams, Sian Morgan, Sarah Anderson, David Tucker, Sharon Hillier

Prenatal Diagnosis | Volume 42, Issue 5

First published: 12 March 2022

Abstract ^

Abstract Objective

To evaluate the implementation of non-invasive prenatal testing (NIPT) on pregnant women's choices in a national NHS antenatal screening programme for Down's syndrome, Edwards' syndrome and Patau's syndrome.

Ffigur 23: Sgrin lun o'r papur cyhoeddedig

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Dewisiadau menywod

- Dewisodd tua 86% o fenywod â chanlyniad cyfun neu bedwarplyg siawns uwch NIPT
- Dewisodd 12% beidio â chael profion pellach, a
- Dewisodd 2% brawf mewnwthiol - roedd hyn yn golygu gostyngiad o bron naw gwaith mewn menywod sy'n cael prawf mewnwthiol
- dim gwahaniaeth o ran cyfraddau geni byw syndrom Down yng Nghymru (2015-2020). Roedd potensial y gallai ychwanegu rhagor o brofion sgrinio at lwybr sgrinio'r GIG olygu mwy o derfyniadau beichiogrwydd pan geir diagnosis o syndrom Down yn dilyn sgrinio.

Profion labordy

- 93% canlyniadau NIPT siawns isel
- 6% canlyniadau siawns uchel
- 1% canlyniadau NIPT wedi methu
- 84% ar gyfer canlyniadau NIPT o dynnu hyd at ddarparu canlyniadau i'r bwrdd iechyd o fewn 0-5 diwrnod calendr

Perfformiad NIPT fel prawf wrth gefn

Ni chafodd perfformiad NIPT ar gyfer T13 a T18 ei ateb yn y cyfnod gwerthuso oherwydd niferoedd bach o feichiogrwydd syndrom Edwards a syndrom Patau yn y boblogaeth. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn gweithio gyda gwledydd eraill y DU i fonitro perfformiad oherwydd bod yr Alban a Lloegr yn dal i fod o fewn cyfnod y cyflwyniad gwerthusol y gwledydd.

Cynnydd yng nghanran y rhai a gafodd brofion sgrinio sylfaenol - Argymhellion o'r adroddiad

Roedd cynnydd yng nghanran y rhai a gafodd brofion sgrinio, sef:

- 4%-8% yn ystod dwy flynedd gyntaf y gwerthusiad a
- 12% yn ystod 6 mis olaf y gwerthusiad.


Fel un o argymhellion yr adroddiad, roedd Sgrinio Cyn Geni Cymru yn ymrwymedig i ymchwilio i'r rhesymau posibl dros y cynnydd yng nghanran y rhai a gafodd y prawf sgrinio cychwynnol. Roedd chwe mis olaf y cyflwyniad gwerthusol yn cynnwys menywod a oedd yn feichiog ar anterth pandemig COVID, ac mae angen ystyried y cyd-destun hwn. Mae'r ffrwd waith hon yn parhau ar hyn o bryd gydag arolygon yn gofyn am farn menywod ar brofion sgrinio a gynigiwyd iddynt dros y 5 mlynedd diwethaf, ac arolwg ar gyfer sonograffwyr a bydwagedd ar eu profiadau o reoli menywod sydd wedi

cael cynnig sgrinio ar gyfer T13, T18 a T21. Bydd y canlyniadau'n cael eu dadansoddi yn ystod Hydref-Gaeaf 2024 a gwneir argymhellion o'r canfyddiadau.

Rhannu Canfyddiadau'r Cyflwyniad Gwerthusol

Cafodd canfyddiadau'r cyflwyniad gwerthusol eu rhannu â chydweithwyr yng Nghymru ac yn y DU.

- Iechyd y Ffetws a Mamau a Phlant (Mai 2022)
- Rhwydwaith Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru (Mai 2023)
- Cynhadledd Genedlaethol Antenatal Results and Choices (ARC) (Medi 2023)



Ffigur 24: Sgrin lun o'r cyflwyniad

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Busnes fel arfer ar gyfer NIPT

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru mewn partneriaeth â Labordy Genomeg Cymru Gyfan yn monitro perfformiad NIPT ac yn cyflwyno adroddiadau arno i fyrdau iechyd yn flynyddol ar ôl cwblhau'r cyflwyniad gwerthusol tair blynedd. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn gweithio'n agos gyda GIG Lloegr ac Iechyd Cyhoeddus yr Alban fel rhan o Werthusiad 3 Gwlad o'r NIPT. Mae data ar gyfer Ebrill 2022-Mawrth 2023 yn parhau i ddangos canfyddiadau tebyg i gyfnod y cyflwyniad gwerthusol. Gweler y tabl isod:

Tabl 2: Data blynyddol Sgrinio a Diagnostig Cymru Gyfan (2022-2023)

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Data source: Diagnostic laboratory IT system					Comments
a. How many NIPT samples were performed for a higher chance combined or quadruple screening test in a singleton pregnancy	620				
b. How many NIPT samples were performed for a higher chance combined screening test in a twin pregnancy	4				
Total NIPT tests performed: (auto-completed)	624				

Data source: Diagnostic laboratory IT system					Comments
	T13	T18	T21	Total	
c. How many were high chance NIPT results in a singleton pregnancy	1.1%	1.9%	6.5%	9.5%	
d. How many were high chance NIPT results in a twin pregnancy	0.0%	0.0%	0.0%	0.0%	
Total high chance NIPT results: (auto-completed)	1.1%	1.9%	6.5%	9.5%	

Data source: Diagnostic laboratory IT system					Comments
e. How many were low chance NIPT results in a singleton pregnancy	90.5%				
f. How many were low chance NIPT results in a twin pregnancy	100.0%				
Total low chance NIPT results: (auto-completed)	90.5%				
(auto-completed)	90.5%				

Data source: Diagnostic laboratory IT system					Comments
g. How many tests did not provide a result	0.0%				

Data source: Diagnostic laboratory IT system					Comments
	7 or less calendar days	8-14 calendar days	>14 calendar days		
h. What is the NIPT test turnaround time in the laboratory	80.8%	18.8%	0.5%		

Llwybr mapio ar gyfer sgrinio T13, 18 a T21 o'r cysyniad hyd at adrodd canlyniadau

Cynhaliodd Sgrinio Cyn Geni Cymru, mewn partneriaeth â Labordy Biocemeg Cymru Gyfan a'r byrddau iechyd, ymarfer mapio i fapio'r prosesau yn y byrddau iechyd o'r cysyniad i'r prawf sgrinio T13, T18 a T21 hyd at adrodd ar ganlyniadau. Mae'r ymarfer mapio hwn yn cael ei ddadansoddi ar hyn o bryd gan Labordy Biocemeg Cymru Gyfan a bydd yn cynorthwyo'r gwaith o symleiddio'r broses er hwylustod clinigwyr a lleihau gwallau yn y llwybr yn ogystal â darparu gwybodaeth ar gyfer gwneud cais am brawf electronig (ETR) ar gyfer y profion.

Deall heriau cwblhau cardiau cais-profion sgrinio cyfun neu bedwarplyg

Mae'r prawf sgrinio cyfun yn cael ei gynnal mewn beichiogrwydd sengl neu efeilliaid o 11⁺²-14⁺¹ o ran cyfnod beichiogrwydd ac mae'n sgrinio am T13, T18 a T21. Mae'r prawf sgrinio pedwarplyg yn cael ei gynnal mewn beichiogrwydd sengl o 15⁺⁰-18⁺⁰ ac mae'n sgrinio am T21. Cymerodd cydweithwyr o Dîm Sgrinio Cyn Geni Cymru, cydweithwyr o fwrdd iechyd a Labordy Biocemeg Cymru Gyfan ran mewn cwrs Newid Ymddygiad, a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yr her oedd darganfod pam mae gwallau cardiau cais ar gyfer y Bwrdd Iechyd ar gyfer sgrinio pedwarplyg tua 30% (cymerir nifer bach o samplau, gan arwain at gyfraddau uchel). O ganlyniad mae hyn yn arwain at oedi o ran menywod yn cael canlyniadau gan gynyddu gorbryder, oedi posibl o ran rheoli canlyniadau siawns uwch a phositif yn y dyfodol ac mae'n cymryd llawer o amser i staff labordy a staff bydwreigiaeth wrthdroi'r gwallau cyn y gellir dadansoddi'r sampl.

Cafodd arolwg yn seiliedig ar ymddygiad presennol ei gynnal ac wrth ystyried parthau a sgoriodd uchaf, canfuwyd bod clinigwyr o'r farn bod:

Tabl 3: Parthau ymddygiad a sgoriau cymedrig

- camsyniadau ynghylch gwallau unigolion wrth gwblhau cardiau
- ddim yn ymwybodol o ganlyniadau gwallau cardiau cais
- ystyriwyd bod cwblhau cerdyn yn dasg a blaenoriaethwyd tasgau eraill gan arwain at ragor o wallau

Behavioural Domain	Mean Score
Social Influences	2.36
Beliefs about consequences	2.10
Motivation, goals and priorities	1.98
Action planning	1.93
Memory, attention, and decision processes	1.87
Knowledge	1.60
Professional role and identity	1.44
Emotion	1.28
Skills	1.06
Beliefs about capabilities	1.04
Environmental contexts and resources	0.88

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.


Dadansoddi'r canfyddiadau a'r ymyriadau

- Mae'r broses yn gymhleth gyda llawer o unigolion yn ychwanegu gwybodaeth at y cerdyn cais ar adegau a lleoliadau gwahanol.
- Nid oes unrhyw un yn cymryd perchnogaeth o'r cerdyn cais gan arwain at y dybiaeth bod rhywun wedi gofyn y cwestiwn yn flaenorol e.e. smygu yn ystod beichiogrwydd
- Diffyg gwybodaeth am y broses a chanlyniadau peidio â chwblhau'r cerdyn cais yn gywir.

Mae angen newid ar y broses a chynhaliwyd cynllun peilot ar raddfa fach mewn un o'r byrddau iechyd yng Nghymru lle rhoddwyd gorchwyl i nifer bach o weithwyr iechyd proffesiynol gynnal yr holl brofion sgrinio pedwarplyg yn y bwrdd iechyd a chwblhau'r llwybr o'r dechrau i'r diwedd.



- Gan ddefnyddio'r model hwn, canfuwyd bod rhoi gorchwyl i nifer bach o weithwyr iechyd proffesiynol gwblhau'r llwybr ar gyfer cerdyn cais a chymryd samplau, yn arwain at ostyngiad o 8% yn y gyfradd wallau o fewn ychydig fisoedd i'r ymyriad. Er bod y gyfradd hon yn uwch na chyfraddau disgwyledig Sgrinio Cyn Geni Cymru o ran gwallau cerdyn cais (<2%), roedd y gwelliant yn un i'w ddatlu ac i barhau ar y taflwybr ar i lawr o ran gwallau.
- Mentrau newid ymddygiad a fabwysiadwyd yn y bwrdd iechyd ar wallau cerdyn cais:
- Rhoddir rhagor o gyfarwyddyd i arweinwyr tîm a chymorth ar gyflwyno'r gwallau cerdyn cais i'w Timau drwy ddangosfwrdd
- Bydd adborth unigol yn cael ei newid i adborth tîm (dileu'r diwylliant o fwrw bai)
- Annog cwblhau pecyn e-ddysgu sy'n canolbwyntio ar gwblhau'r cerdyn cais yn gywir. Cynyddu canran y rhai sy'n cwblhau hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd
- Newid y derminoleg o wallau cerdyn cais i fentrau diogelwch mamau a babanod
- Defnyddio Cydlynwyr Sgrinio Cyn Geni fel clinigwyr arbenigol i ddileu'r diwylliant o fwrw bai o'r hierarchaeth Arweinydd Tîm gan ddarparu adborth (+/-) i unigolion
- Cysylltu â'r Arweinydd Gwella Ansawdd i gynorthwyo-mapio'r broses (ar y safle) i nodi unrhyw broblemau. Cymharu hyn â'r ymarfer mapio Biocemeg.
- Gwneud gwaith dilynol ar effeithiau'r cynllun peilot mewn 3 mis-os yw hyn yn dangos gwelliant mewn ymarfer-i'w gynyddu ar draws y bwrdd iechyd
- Gwneud gwaith dilynol ar y defnydd o'r dangosfwrdd fel offeryn ar gyfer gwella
- Cyflwyno canfyddiadau i Gyfarfod Gwella Ansawdd y Bwrdd Iechyd/Cydlynwyr Sgrinio Cyn Geni Cymru a chyfarfodydd Arweinwyr Llywodraethu Mamau a Phlant




Ffigur 25: graff sy'n dangos y gostyngiad mewn gwallau cardiaid cais

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.



Offeryn Ymyriad Cerdyn Cais

Fel un o argymhellion y cwrs ymddygiad a chanfyddiadau'r cynllun peilot, mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi cynhyrchu a chyhoeddi fideo byr offeryn ymyriad ar gwblhau cerdyn cais gyda gwybodaeth am ganlyniadau pob cofnod data anghywir. Mae hwn hefyd ar gael fel templed copi caled.



Ffigur 26: Sgrin lun o'r fideo offeryn ymyriad

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Newidiadau i'r cerdyn cais cyfun a phedwarplyg

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi gweithio gyda Labordy Biocemeg Cymru Gyfan i ddiweddau'r cerdyn cais cyfun a phedwarplyg i gynnwys data ar gyfer dadansoddiad gwell o'r canlyniadau.

Dyma'r ychwanegiadau a'r diwygiadau:

- gwybodaeth am gymorth i atgennedlu 'oed y rhoddwr wyau adeg cynaeafu' a 'dyddiad trosglwyddo'
- ei gwneud yn orfodol cynnwys rhifau'r GIG (os ydynt ar gael ar y diwrnod y cymerir y sampl)
- gwell meini prawf ar gyfer ethnigrwydd y fam

Ffigur 27: Cerdyn cais wedi'i ddiweddaru sy'n dangos pwysigrwydd cwblhau bob adran

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Ailarchwilio'r rhesymau pam mae menywod yn cael sgrinio pedwarplyg

Ers gweithredu'r prawf cyfun (11^{+2} - 14^{+1}) i'r llwybr sgrinio cyn geni ar gyfer cynnig T13, T18 a T21, gwnaeth nifer y profion sgrinio pedwarplyg ar gyfer T21 yn unig (15^{+0} - 18^{+0}) ostwng yn ôl y disgwyl. Nodwyd ar adroddiadau Dangosydd Perfformiad fod amrywiad yn y gymhareb o sgrinio cyfunol i bedwarplyg yn y byrddau iechyd ac o fewn safleoedd unigol yn y byrddau iechyd. Roedd yr amrywiad hefyd yn newid o fewn pob bwrdd iechyd yn fisol. Cynhaliwyd archwiliad ciplun Cymru gyfan yn 2019 i archwilio'r rhesymau pam mae menywod yn cael sgrinio pedwarplyg. Canfu ailarchwiliad yn 2023 themâu tebyg i archwiliad 2019.

Canfyddiadau ynghylch pam mae menywod wedi cael prawf pedwarplyg:

- Mae tua 60% o fenywod yn cael sgrinio pedwarplyg oherwydd nad oes modd mesur tryloywder y gwegil (NT) ar gefn gwddf y ffetws. Nid oes modd mesur tryloywder y gwegil oherwydd nifer o ffactorau e.e. lleoliad y ffetws, mynegai màs y corff (BMI) uchel y fam.
- Mae carfan o fenywod sydd naill ai'n ansicr o'u LMP, neu'n rhagdybio eu cyfnod beichiogrwydd, dim ond i ganfod ar eu sgan dyddio uwchsain eu bod ar gyfnod beichiogrwydd mwy datblygedig nag yr oeddent yn meddwl. Roedd hyn yn 64% gwirioneddol o'i gymharu â 90% a ragdybiwyd ar archwiliad 2023.
- Mae rhai menywod yn canslo eu hapwyntiad ar gyfer sgrinio cyfun, neu nid ydynt yn dod i'w hapwyntiad, ac yna ar ôl aildrefnu'r prawf sgrinio, maent y tu allan i'r paramedrau i gynnig sgrinio cyfun.

Argymhellion o'r ailarchwiliad


Tabl 4: Argymhellion o'r archwiliad hepatitis B

Argymhellion o'r archwiliad	
Arweinwyr Llywodraethu Mamau a Phlant i adolygu lle	derbyniwyd y cerdyn uwchsain ac amseroldeb trefnu'r sgan uwchsain
	cwblhau'r cerdyn cais uwchsain gan y fydwraig ac i ddychwelyd cardiau lle nad oes LMP na hanes yn ymwneud â chyfnod beichiogrwydd gan drefnu'r sgan uwchsain ar gyfer 12 wythnos o feichiogrwydd yn ôl LMP (os yw'r fenyw yn cyflwyno ar gyfer gofal cyn 12 wythnos o feichiogrwydd)
	menywod yn cael eu cynghori ar y gwahaniaeth rhwng y prawf cyfun a'r prawf sgrinio pedwarplyg y byddant nawr yn ei gael
Arweinwyr NT i adolygu	nad oedd modd cyflawni'r NT (NTNOTS) fesul

lle:	bwrdd iechyd a fesul sonograffydd unigol
	parhau i gynnig prawf sgrinio pedwarplyg yn yr ail gyfnod o dri mis a monitro unrhyw dueddiadau lleol
Sgrinio Cyn Geni Cymru	Ailarchwilio a yw'r argymhellion wedi cael effaith.

Diweddariad ar effell sydd wedi diflannu/yn diflannu

Yn flaenorol, mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi paratoi canllawiau ar gyfer cynnig sgrinio am T13, T18 a T21 lle roedd beichiogrwydd gefeilliaid i ddechrau lle mae un o'r efeilliaid wedi marw (gefell sy'n diflannu/wedi diflannu). Cafodd hyn ei ddiweddarau yn 2023 i gynnwys canllawiau ar y senarios mwy prin lle byddai beichiogrwydd lluosog o dri neu fwy ffetws ac un neu ragor lle mae'r ffetws wedi marw a ganfyddir ar adeg y sgan dyddio beichiogrwydd cynnar.




Ffigur 28: Llwybr ar gyfer gefell sy'n diflannu/wedi diflannu

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Adnodd pan gynigiwyd rhagor o brofion am gyflyrau cromosomaidd a amheuir

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn cyhoeddi ac yn argraffu “Mae'r wybodaeth hon i chi os ydych wedi cael cynnig mwy o brofion ar gyfer cyflyrau cromosomaidd posibl” sy'n adnodd i fenywod sydd wedi cael gwybod y gallai'r babi wynebu siawns uwch o gael cyflwr cromosomaidd. Ni fydd pob adran yn y llyfryn yn berthnasol i bob menyw na theulu sy'n cael cynnig y wybodaeth a bydd y gweithiwr iechyd proffesiynol yn trafod yr adrannau sy'n berthnasol i'w darllen.

Mae'r cyhoeddiad hefyd ar gael ar wefan Sgrinio Cyn Geni Cymru ac mae bellach wedi'i rhannu'n rhesymau y byddai'r menywod yn cael cynnig y wybodaeth. Mae



hyn er mwyn ei gwneud yn haws llywio'r wybodaeth i ddefnyddwyr. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn bwriadu gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau i gael eu hadborth ar y newid mewn fformat.

Ffigur 29: Sgrin lun o wefan Sgrinio Cyn Geni Cymru sy'n dangos sut y mae'r wybodaeth wedi'i hailfformatio

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Clefydau Trosglwyddadwy


Heintiau a Brechiadau yn ystod beichiogrwydd

Heintiau a Brechiadau yn ystod Beichiogrwydd: Canllaw i Weithwyr Iechyd Proffesiynol

Cafodd y ddogfen hon ei hadolygu gan arbenigwyr yng Nghymru a'i chyhoeddi ym mis Mai 2023. Ei nod yw rhoi canllawiau i weithwyr iechyd proffesiynol ar reoli brechau yn ystod beichiogrwydd a phryd y dylid ac na ddylid cynnig profion serolegol a pha brofion a allai fod yn berthnasol yn dilyn canfyddiadau uwchsain penodol.

Mae'r fersiwn hon yn cynnwys diwygiadau ar

- Imiweiddiadau a argymhellir yn ystod beichiogrwydd
- Diweddariadau feiroleg ar gyfer rhai cyflyrau
- Diweddaru atgyfeiriad meddygaeth y ffetws â chanfyddiadau uwchsain




Ffigur 30: Clawr blaen y canllaw Heintiau a Brechau yn ystod Beichiogrwydd

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Gwylidwriaeth data sifilis a HIV

Yn flaenorol, roedd data ar gyfer HIV yn ystod beichiogrwydd yn y DU yn cael eu hadrodd i'r Astudiaeth Genedlaethol o HIV yn ystod Beichiogrwydd a Phlentyndod (NSHPC), ac ar ôl hynny cafodd ei gomisiynu gan Public Health England (PHE) a daeth yn Wasanaeth Gwylidwriaeth Canlyniad Sgrinio Integredig (ISOSS) yn 2018 i barhau â gwylidwriaeth HIV, sifilis a hepatitis B yn ystod beichiogrwydd. Fodd bynnag, oherwydd rhwystrau rhannu data ar gyfer y cenhedloedd datganoledig, mae'r astudiaeth genedlaethol hon dim ond yn cwmpasu Lloegr ar gyfer y cyflyrau hyn.

Yng Nghymru, mae gwylidwriaeth hepatitis B yn ystod beichiogrwydd a brechu newyddenedigol yn cael ei gynnal gan CDSC (Canolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy, Iechyd Cyhoeddus Cymru). Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru, mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaledau Cynhenid (CARIS) a Diogelu Iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi sefydlu system gwylidwriaeth data ar gyfer HIV a sifilis yn ystod beichiogrwydd yng Nghymru gan gasglu data yn ôl-weithredol o ganlyniadau sgrinio positif o 1 Ionawr 2023.



Ffigur 31: Llwybr ar gyfer rheoli gwylidwriaeth data Sifilis a HIV yn ystod beichiogrwydd yng Nghymru

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Bydd byrddau iechyd yn cwblhau ffurflen hysbysu Cymru gyfan a ffurflen canlyniadau ar gyfer pob menyw feichiog sy'n profi'n positif am sifilis neu HIV yn ystod beichiogrwydd.


Bydd y wybodaeth bersonol adnabyddadwy (PII) hon yn cael ei hanfon i dîm y Gwasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaledau Cynhenid (CARIS) a fydd yn ei choladu a'i chynnwys yn nhablau data ystadegau swyddogol sy'n cael eu diweddarau'n flynyddol. Bydd tîm CARIS yn rhannu'r data â'r Ganolfan Wylidwriaeth ar gyfer Clefydau Trosglwyddadwy (CDSC) yn flynyddol ar gyfer dadansoddiadau, ac adrodd gyda chyd-destun yn Adroddiad Blynyddol Cymru Gyfan Canolfan Arolygu Clefydau Trosglwyddadwy Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Ar hyn o bryd, nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi yng Nghymru ac, felly, nid yw gwylidwriaeth o'r ddau gyflwr yn digwydd yng Nghymru. Bydd casglu data canlyniadau sgrinio ac adrodd arnynt ar gyfer y rhaglen sgrinio clefydau heintus yn ystod beichiogrwydd (IDPS) yn cefnogi Sgrinio Cyn Geni Cymru a CDSC i asesu effaith y cyflyrau yng Nghymru. Mae hyn yn arwain at wneud argymhellion yn lleol ac yn genedlaethol, cryfhau polisi ac ymarfer, a gwella gofal i famau a'u plant

yng Nghymru. Drwy gasglu data yn genedlaethol yng Nghymru, gall CDSC gyfrannu at wasanaethau gwyliadwriaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol a rhyngwladol eraill er mwyn ychwanegu at ddeallusrwydd byd-eang ehangach ar glefydau heintus.

Cymhorthion i'r cof ar gyfer rheoli HIV, sifflis a hepatitis B yn ystod beichiogrwydd

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi paratoi a chyhoeddi cymhorthion i'r cof ar gyfer clinigwyr sy'n arwain ar reoli HIV, hepatitis B a sifflis yn ystod beichiogrwydd. Eu diben yw bod yr holl feysydd rheoli a argymhellir wedi'u lleoli mewn un ddogfen hygyrch. Cafodd dolen i ffurflenni gwyliadwriaeth data CARIS ei hychwanegu yn dilyn gweithredu gwyliadwriaeth data ar gyfer HIV a sifflis yn ystod beichiogrwydd ym mis Rhagfyr 2023.




The image shows a screenshot of a form titled "Sgrinio Cyn Geni Cymru Antenatal Screening Wales". The form is for "HIV positive result and management in pregnancy". It includes fields for patient details (Name, Date of Birth, Address), a table for HIV test results (Test, Date, Result), and a section for management and follow-up. The form is dated 2 January 2024.

Ffigur 32: Sgrin lun o'r cymorth i'r cof

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Cais am brawf electronig (ETR)-ychwanegu gwybodaeth glinigol

Mae'r tîm wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr ym maes Feirolleg a grŵp gweithredu System Gwybodaeth Labordy Cymru i ychwanegu oed y ffetws ar adeg y prawf at y cais am brawf electronig. Bydd y wybodaeth hon wedi'i hychwanegu yn galluogi'r labordai i asesu brys y dadansoddiad o'r prawf h.y. arferol, cyflym, neu frys fel y nodir yn y sgrin lun. Dylid dadansoddi profion brys a chyflym ac adrodd arnynt o fewn 1 diwrnod gwaith i'r sampl gyrraedd y labordy.



All three tests, for HIV, HBV and syphilis, are recommended. See [Antenatal Screening Wales guidance](#).
 If any test is NOT required the remaining tests should be requested individually - handwritten alterations or requests will not be accepted.

- If the patient is < 23+6 weeks pregnant at the time the sample is taken, select "Routine testing";
- If the patient is more than 23+6 weeks pregnant, select "Rapid testing";
- If the patient is more than 36+6 weeks pregnant, select "Urgent testing" and tick the urgent box on the main ETR request page

PLUS telephone the microbiology laboratory for advice for any patient who is already in labour, or post-partum, at the point these tests are requested.

NB: Screening for rubella immunity (rubella IgG titre) ceased on 3rd October 2016 as advised by Welsh Government and is not available as part of the antenatal screen.

Please Select an appropriate Site:

☐ Routine test (<23+6 gestation)
☐ Rapid test (between 23+6 and 36+6)
☒ Urgent (>36+6 gestation)

Please Select an appropriate Qualifier:

☒ syphilis, hepatitis B and HIV [S]
☐ hepatitis B ONLY
☐ HIV ONLY [S]
☐ syphilis ONLY [S]

Ffigur 33: Tudalen prawf electronig wedi'i diweddarau

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

E-ddysgu Clefydau Trosglwyddadwy

Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi paratoi a chyhoeddi pecyn e-ddysgu ar gyfer pob gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n ymwneud â chynnig a rheolaeth ddilynol sgrinio am HIV, sifffilis a hepatitis B yn ystod beichiogrwydd. Mae'r pecyn yn cynnwys 4 modiwl:

- HIV
- Sifffilis
- Hepatitis B
- Sgrinio a rheoli'r cyflyrau yn ystod beichiogrwydd

Gyda chaniatâd gan GIG Lloegr, mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi golygu'r pecyn lle ceir gwahaniaethau yn y llwybr yng Nghymru. Mae modiwl e-ddysgu Sgrinio Cyn Geni Cymru sgrinio clefydau trosglwyddadwy yn ystod beichiogrwydd ar gyfer bydwagedd ac obstetryddion yn adnodd hyfforddi i gynorthwyo gweithwyr iechyd proffesiynol i ddarparu rhaglen sgrinio HIV, hepatitis B a sifffilis yn y GIG yng Nghymru. Yr argymhelliad yw ei fod yn cael ei gwblhau bob dwy flynedd.


Ailarchwiliad labordy o ganlyniadau ar gyfer rheoli hepatitis B cronig yn ystod beichiogrwydd

Cynhaliwyd archwiliad blaenorol yn 2019 i adolygu'r protocolau ar gyfer sgrinio hepatitis B yn ystod beichiogrwydd. Roedd yr archwiliad hwn yn amserol, gan fod protocol ychwanegol i argymhell profion DNA (llwyth feirysol) ar gyfer hepatitis B ar adeg y sampl cadarnhau wedi cael ei gynnig i bob menyw feichiog a oedd wedi cael diagnosis o hepatitis B. Roedd hyn er mwyn gallu cynnig triniaeth i fam â

llwyth feirysol uchel yn y trydydd tri mis, gan leihau'r risg o drosglwyddo fertigol ac i nodi'r babanod sy'n wynebu risg a gostwng trosglwyddiad fertigol ymhellach.

Cynhaliwyd ailarchwiliad yn 2023 ar y cyd â Feiroleg, Sgrinio Cyn Geni Cymru, Cofrestrydd Arbenigol Iechyd Cyhoeddus Cymru a Diogelu Iechyd i gynnal archwiliad ôl-weithredol o gydymffurfiaeth â safonau a phrotocolau Sgrinio Cyn Geni Cymru. Yn ogystal ar yr archwiliad hwn, dilynwyd babanod y mamau am 13 mis cyntaf eu bywyd er mwyn monitro a oeddent yn cael eu brechiadau newyddenedigol fel yr argymhellir. Yn 13 mis oed dylid cymryd prawf serwm o'r babi i gadarnhau nad oes trosglwyddiad fertigol wedi digwydd.

Daeth themâu tebyg i'w amlwg fel gyda chanfyddiadau archwiliad 2019. Roedd cydymffurfiaeth â safonau Sgrinio Cyn Geni Cymru ar gyfer samplau seroleg cadarnhau a phrofion llwyth feirysol HBV DNA yn dilyn canlyniad HBsAg adweithiol neu bositif yn y drefn honno yn uchel. Fodd bynnag, i fenywod y gwyddys bod ganddynt hepatitis B ar adeg cael eu gwaed sgrinio â chydysniad wedi'u cymryd, cafodd 6% o fenywod cymwys brofion amserol o lwyth feirysol DNA, sy'n dangos cydymffurfiaeth wael â'r protocol hwn. Fel y nododd yr archwiliad blaenorol, ymhlith y rhwystrau i ddilyn y llwybr clinigol priodol roedd diffyg presenoldeb y fenyw, cadw lle ar gyfer y beichiogrwydd yn hwyr, a menywod yn symud y tu allan i'r Bwrdd Iechyd yn cael eu "colli o ran cymryd camau dilynol".



Ffigur 34: Diagram sy'n dangos niferoedd y diagnosis o hepatitis B yn ystod beichiogrwydd a phrofion dilynol

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Cafodd canran uchel o gleifion adolygiad gyda Gastroenteroleg/Hepatoleg, er bod cyfran is-optimaid o'r adolygiadau hyn o fewn 6 wythnos i ganlyniad sgrinio cyn geni positif.

Yn dilyn yr archwiliad, bydd Sgrinio Cyn Geni Cymru yn diwygio'r protocol amseroedd dychwelyd canlyniadau ar gyfer asesiad gan Gastroenteroleg/Hepatoleg o fewn 6 wythnos i fenywod sydd â:


- chanlyniad sgrinio positif am hepatitis B wedi'i gadarnhau am y tro cyntaf yn y beichiogrwydd hwn

- canlyniad â marcwyr heintusrwydd uwch ar gyfer menyw y gwyddys ei bod yn byw gyda hepatitis B

Dylai pob menyw arall gael ei hasesu gan Gastroenteroleg/Hepatoleg o fewn 18 wythnos i ganlyniad positif.

Roedd cydymffurfiaeth â safonau Sgrinio Cyn Geni Cymru ar gyfer hepatitis B adweithiol yn uchel. Cafodd yr holl samplau a gafodd ganlyniad adweithiol yn ystod y cyfnod archwilio eu cadarnhau fel rhai negatif pan gafodd y samplau eu haildrodd, gan roi sicrwydd parhaus o brotocol Sgrinio Cyn Geni Cymru ar gyfer rheoli canlyniadau adweithiol yn ystod beichiogrwydd.

Neonatal and infant vaccination



Ffigur 35: Graff yn dangos brechu newyddenedigol a babanod

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.

Cafodd pob babi a nodwyd fel un a oedd yn wynebu risg uchel o drosglwyddiad fertigol imiwnoglobwlin hepatitis B (HBIG) amserol ar yr adeg gywir yn ystod y cyfnod newyddenedigol cynnar. Cafodd cyfran uchel o'r babanod yr holl frechiadau a argymhellwyd ar yr adeg gywir ac roedd nifer llai wedi cael y brechiadau ond nid ar yr adeg gywir. Ni fynychodd rhai babanod i gael eu brechiadau a dangosodd dogfennaeth nad oedd rhai babanod yn y wlad pan oedd disgwyl iddynt gael eu brechiadau.

Cafodd y rhan fwyaf o fabanod brawf serolegol ar ôl eu trefnu frechu a nodwyd yr holl fabanod a brofwyd fel rhai hepatitis B negatif.

Cafodd canlyniadau'r archwiliad eu rhannu â'r canlynol:


- Penaethiaid Bydwreigiaeth Byrddau Iechyd
- Cydlynwyr Sgrinio Cyn Geni

- Arweinwyr Llywodraethu Mamau a Phlant
- Labordai feiroleg/microbioleg yng Nghymru
- Arweinwyr Gastroenteroleg Byrddau Iechyd Cymru Gyfan.

Cafodd canlyniadau archwilio eu cyflwyno a'u trafod yn y cyfarfod ar y cyd rhwng cydlynwyr sgrinio ac arweinwyr llywodraethu ym mis Hydref 2019. Derbyniwyd cyflwyniad poster o'r archwiliad i'w gynnwys yng Nghynhadledd Ymchwil a Gwerthuso Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru, ar y cyd â chydlynwyr sgrinio ac Arweinwyr Llywodraethu Mamau a Phlant, wedi penderfynu datblygu templed/rhestr wirio ar gyfer menywod Hepatitis B positif i'w defnyddio gan fyrdau iechyd.

Gwybodaeth i fenywod sy'n cael canlyniad positif ar gyfer HIV, hepatitis B neu sifilis yn ystod beichiogrwydd

Mae cyfres Sgrinio Cyn Geni Cymru o wybodaeth ar-lein i fenywod sy'n cael diagnosis o HIV, sifilis a hepatitis B yn ystod beichiogrwydd a lle ceir "canlyniad adweithiol" ar gyfer un o'r cyflyrau wedi'i hadolygu a'i diweddarau. Sicrhawyd bod y taflenni yn fanwl gywir heb ddileu cynnwys ac maent yn cael eu cyhoeddi ar safle rhyngwyd Sgrinio Cyn Geni Cymru mewn HTML er hwylustod mynediad ar ddyfeisiau symudol.



Ffigur 36: Sgrin lun o wefan Sgrinio Cyn Geni Cymru yn dangos gwybodaeth yn ystod beichiogrwydd lle cafwyd canlyniad prawf positif am sifilis

Ffigur wedi'i atgynhyrchu o ffynhonnell nad yw'n darparu fersiwn Gymraeg ar hyn o bryd.



Edrych ymlaen at y flwyddyn sgrinio nesaf

Yn 2024/25, bydd Sgrinio Cyn Geni Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â byrddau iechyd a sefydliadau cymorth i barhau i sicrhau bod y rhaglenni sgrinio cyn geni yn cael eu cyflwyno'n llwyddiannus

Bydd y datblygiadau allweddol yn cynnwys-

- Gwerthuso cffDNA mewn ymarfer clinigol. Bydd gwerthusiad o'r prosiect a fydd yn dechrau ym mis Gorffennaf 2024 ac yn ffurfio gwerthusiad blwyddyn i geisio monitro'r llwybr a pherfformiad y prawf sgrinio.
- Cymorth parhaus ar gyfer rôl Arweinydd Llywodraethu Mamau a Phlant. Bydd y canfyddiadau o'r cyfweiliadau yn cael eu harchwilio gan Benaethiaid y Rhaglen i ddeall llwyth gwaith, effeithiolrwydd y rôl ac a oes unrhyw rwystrau sy'n atal y rôl llywodraethu strategol. Bydd argymhellion yn cael eu bwydo yn ôl i'r byrddau iechyd.
- Bydd Sgrinio Cyn Geni Cymru yn parhau i gynyddu hygyrchedd i ddefnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr iechyd proffesiynol yn y dogfennau ar-lein. Bydd y Polisi, Safonau a Phrotocolau yn cael eu hailfformatio cyn yr adolygiad ffurfiol nesaf a fydd yn dechrau yn 2026
- Addasu'r pecyn hyfforddi bydwagedd dan hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 1 a blwyddyn 2.
- Dadansoddi arolygon defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr iechyd proffesiynol. Deall pam mae menywod yn derbyn neu'n gwrthod sgrinio ar gyfer syndrom Down, syndrom Edwards a syndrom Patau. Rhoi sicrwydd i'r Rhaglen bod menywod yn gwneud eu penderfyniadau yn seiliedig ar ddewis gwybodus personol.
- Adborth defnyddwyr gwasanaethau ar ailfformatio'r wybodaeth ar ôl prawf "*Mae'r wybodaeth hon i chi os ydych wedi cael cynnig mwy o brofion ar gyfer cyflyrau cromosomaidd posibl*"
- Gweithredu'r broses o ychwanegu mesur cylch yr abdomen ar y sgan anomaledd. Mae'r gweithredu wedi'i drefnu ar gyfer mis Hydref 2024 ar gyfer pob bwrdd iechyd yng Nghymru a bydd Sgrinio Cyn Geni Cymru yn darparu gwerthusiad parhaus o'r llwybr.
- Ailarchwilio yn y Rhaglen-
 - Cwblhau cerdyn cais clefyd y crymangelloedd a thalasaemia. Mae cywirdeb y canlyniad ac amseroedd dychwelyd canlyniadau amserol yn dibynnu ar gofnodi gwybodaeth gywir ar y cerdyn cais.
 - Cafodd canllawiau delweddu ar ganfyddiad uwchsain ecogenig eu diwygio yn 2022-23 gyda mewnbwn gan Arweinwyr uwchsain obstetreg ledled Cymru. Nod y diwygiad oedd gwella hyder diagnostig y canfyddiad annisgwyl. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru yn bwriadu ailarchwilio yn 2024/2025 i fesur a fu gwelliant mewn cywirdeb diagnostig.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Crynodeb

Bu'r adroddiad blynyddol dwy flynedd hwn yn gyfnod prysur i Sgrinio Cyn Geni Cymru. Mae'r Tîm wedi gweithio'n galed i sicrhau bod y rhaglenni sgrinio yn cael eu darparu a'u rheoli mewn ffordd gydlynol yn y byrddau iechyd. Mae'r prosiect i ddatblygu a gweithredu'r prawf newydd DNA di-gell y ffetws (cffDNA) yn rhan o'r llwybr sgrinio Grŵp Gwaed a Gwrthgyrff wedi cymryd cyfran fawr o amser i rai o'r Tîm. Mae Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi parhau i weithio mewn partneriaeth â chydweithwyr ledled Cymru i wella'r llwybrau sgrinio, darparu deunydd llawn gwybodaeth i fenywod a'u teuluoedd a deunydd addysgol i weithwyr iechyd proffesiynol er mwyn sicrhau bod menywod sy'n dewis cael sgrinio cyn geni wedi gwneud dewis gwybodus personol.

Mae gwaith rheolaidd Sgrinio Cyn Geni Cymru wedi parhau gan gynnwys monitro'r gwaith sgrinio, cefnogi cydlynwyr sgrinio cyn geni yn y byrddau iechyd, arweinwyr llywodraethu rhaglenni sgrinio i famau a phlant a sonograffwyr arweiniol.

Tîm cynhyrchu

Cyflogir y tîm cynhyrchu ar gyfer yr adroddiad hwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ac fe'u rhestrir isod:

Sarah Fox	Pennaeth Rhaglen Sgrinio Cyn Geni Cymru
Kindry Williams	Cydlynnydd Rhaglen Sgrinio Cyn Geni Cymru
Laura Macdermott	Cydlynnydd Rhaglen Sgrinio Cyn Geni Cymru
Natasha Thomas	Cydlynnydd Rhaglen Sgrinio Cyn Geni Cymru
Ann-marie Donaghy	Rheolwr Cymorth Rhaglen ar gyfer Sgrinio Mamau a Phlant
Elisabeth Radford	Cymorth Gweinyddol, Sgrinio Cyn Geni Cymru



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Gweithio gyda'n gilydd
i greu Cymru iachach

Working together
for a healthier Wales